Adroddiad ar ymweliad arolygu dirybudd â dalfeydd yn Heddlu

# Gogledd Cymru

gan Arolygiaeth Carchardai EM
ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM

**29 Medi – 3 Hydref 2014**

**Geirfa**

Ceisiwn wneud ein hadroddiadau mor glir â phosibl, ond os dowch ar draws unrhyw dermau dieithr, ewch i'r Eirfa yn ein 'Canllaw ar ysgrifennu adroddiadau arolygu' ar ein gwefan yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

Hawlfraint y Goron 2015

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ or email: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i Arolygiaeth Carchardai EM yn y cyfeiriad isod, neu hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk, neu i Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM yn 6th Floor, Globe House, 89 Eccleston Square, Llundain SW1V 1PN, neu
haveyoursay@hmic.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons neu http://www.hmic.gov.uk

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Victory House 6th Floor
30-34 Kingsway
Llundain WC2B 6EX
Lloegr

# Cynnwys


Adran 1. Rhagarweiniad 5

Adran 2. Cefndir a chanfyddiadau allweddol 7

Adran 3. Strategaeth 13

Adran 4. Triniaeth ac amodau 17

Adran 5. Hawliau unigol 23

Adran 6. Gofal iechyd 29

Adran 7. Crynodeb o'r argymhellion a'r pwyntiau cadw tŷ 33

Adran 8. Atodiadau 37

Atodiad I: Y tîm arolygu 37

Atodiad II: Cynnydd gyda'r argymhellion o'r adroddiad diwethaf 39

# Adran 1. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o raglen o arolygiadau o ddalfeydd a gyflawnwyd ar y cyd gan ein dwy arolygiaeth ac sy'n ffurfio rhan allweddol o gyd-raglen waith yr arolygiaethau cyfiawnder troseddol. Mae'r arolygiadau hyn hefyd yn cyfrannu at ymateb y Deyrnas Unedig i'w hymrwymiad rhyngwladol i sicrhau bod pob safle dal carcharorion yn cael eu harolygu'n rheolaidd ac annibynnol. Mae'r arolygiadau'n edrych ar strategaeth, triniaeth ac amodau, gofal iechyd a hawliau unigolion.

Yn Ionawr 2014, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (HMIC) gyflawni arolygiad thematig yn 2014/15 o les pobl agored i niwed yn y ddalfa. Penderfynodd HMIC ac Arolygiaeth Carchardai EM ddefnyddio'r rhaglen dreigl bresennol o arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu i hwyluso'r prif waith maes. Mae'r arolygiad o ddalfeydd yn y Gogledd yn rhan o'r gwaith maes hwn, a bydd y canfyddiadau'n goleuo'r adroddiad thematig terfynol sydd i'w gyhoeddi yn 2015.

Ychydig cyn ein harolygiad, defnyddiodd Heddlu Gogledd Cymru ein cyd-feini prawf arolygu i wneud eu hasesiad eu hunain o sut oedden nhw'n rhedeg eu dalfeydd, oedd i'w ganmol. Roedd eu hasesiad hwy'n werthusiad ystyriol a thryloyw; fodd bynnag, gallai fod wedi bod yn well fyth o nodi beth y gellid ei wneud i roi sylw i feysydd pryder, er enghraifft gweithio gydag awdurdodau lleol i gynnig opsiynau eraill yn lle cadw plant yn y ddalfa.

Ar y cyfan roedd y dalfeydd yn cael eu rhedeg yn dda, ond roedd peth o'r gwaith casglu a dadansoddi data'n annigonol. Roedd hyn yn cynnwys cofnodi'r defnydd o rym a cheisiadau i gynnig llety arall i blant sy'n wynebu cael eu cadw yn y ddalfa. Roedd cyfathrebu cadarnhaol ac effeithiol a strwythurau rheoli da; ac roedd cyfarfodydd yn gynhyrchiol. Roedd prosesau sicrhau ansawdd trylwyr yn eu lle. Roedd darpariaeth dda ar gyfer dysgu a lledaenu gwybodaeth ymhlith y staff, a ddywedodd wrthym fod ganddynt fynediad parod i'r we gan gynnwys cylchlythyr ar faterion cadw yn y ddalfa. Yn ystod ein harolygiad blaenorol o Ogledd Cymru yn 2010 roeddem yn feirniadol iawn o'r amodau gwael yn Wrecsam. Roeddem yn falch o weld bod y ddalfa yno wedi gwella a bod cynlluniau ar waith ers tro i ddarparu dalfa newydd. Dywedodd staff wrthym yr holwyd eu barn am y cynlluniau.

Dywedodd y carcharorion a holwyd gennym y teimlent eu bod yn cael gofal da. Roedd staff yn eu trin mewn ffordd broffesiynol a chwrtais, gan ddefnyddio sgiliau rhyngbersonol gwych. Gallai staff adnabod achosion agored i niwed a chan amlaf roeddent yn darparu gofal priodol i'r carcharorion. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus yn Llanelwy fod llawer mwy o'r carcharorion yn cael eu chwilio heb ddillad na mewn dalfeydd eraill ac ni chafodd y rhesymau dros yr anghysondeb hwn eu nodi.

Roedd ffocws da ar gynnal hawliau'r carcharorion. Roedd defnydd da o opsiynau yn lle arestio ac roedd rhingylliaid y ddalfa'n gwrthod cadw pobl yn y ddalfa lle oedd hynny'n briodol. Ac eithrio mewn rhai achosion nodedig, roedd carcharorion yn cael eu cadw yn y ddalfa am gyn lleied o amser â phosibl. Dywedodd gynrychiolwyr cyfreithiol wrthym eu bod yn teimlo fod y carcharorion yn derbyn gofal da a bod eu hawliau'n cael eu parchu. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus bod y gwasanaeth oedolion priodol o ansawdd anghyson. Roedd gwasanaeth oedolion priodol yr awdurdod lleol yn ystod oriau swyddfa'n llai hygyrch na'r gwasanaeth y tu allan i oriau gan gontractwr.

Ar y cyfan roedd gofal iechyd yn y ddalfa'n dda er gwaethaf rhai cyfyngiadau'n gysylltiedig â phrinder staff. Roedd yr ymarferwyr gofal iechyd (HCP) a staff y ddalfa'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau bod anghenion gofal iechyd y carcharorion yn cael eu cwrdd. Siaradodd y carcharorion yn gadarnhaol am eu cyswllt â gweithwyr HCP. Cawsom fod carcharorion oedd angen triniaeth arnynt yn derbyn meddyginiaeth ddigonol i bara tra oeddent yn y llys, sy'n arfer da ac anghyffredin. Roedd cryn feddwl hefyd o'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Roedd pob carcharor oedd angen ymyriad iechyd meddwl arnynt yn cael eu gweld gan HCP. Roedd y darparwr iechyd meddwl yn derbyn atgyfeiriadau gan nyrsys, sy'n dda iawn. Roedd yn gadarnhaol bod lleihad sylweddol wedi bod, am flwyddyn, mewn cadw cleifion adran 136 yn y ddalfa i'w cadw'n ddiogel, ond yn ddiweddar iawn roedd nifer y bobl oedd wedi eu cadw gan blismyn yn y ddalfa o dan adran 136, ac wedi eu derbyn i'r ysbyty, wedi codi'n sylweddol. Dylai Heddlu Gogledd Cymru fodloni eu hunain fod plismyn yn gwneud defnydd cytbwys a phriodol o'u pwerau o dan adran 136.

Gwnaethom nodi, o'r 24 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad ar ein harolygiad ym mis Medi 2010, fod 14 o'r argymhellion wedi'u cyflawni, saith wedi'u cyflawni'n rhannol a thri heb eu cyflawni.

Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod ystod o gyflawniadau gan Heddlu Gogledd Cymru o ran eu dalfeydd. Mae'n gwneud nifer o argymhellion i'r heddlu ac i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch y nifer gymharol fach o feysydd lle nad oedd y canlyniadau i garcharorion cystal, i helpu'r heddlu i roi sylw i'r rheini hefyd. Rydym yn disgwyl i gynllun gweithredu gael ei ddarparu maes o law.

**Syr Thomas P Winsor**
Prif Arolygydd Cwnstabliaeth EM

**Nick Hardwick**
Prif Arolygydd Carchardai EM

Mai 2015

# Adran 2. Cefndir a chanfyddiadau allweddol

**2.1** Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o arolygiadau o ddalfeydd a gynhaliwyd ar y cyd gan Arolygiaethau Carchardai a Chwnstabliaeth EM. Mae'r arolygiaethau hyn yn rhan o gyd-raglen waith yr arolygiaethau cyfiawnder troseddol ac yn cyfrannu at ymateb y DU i'w hymrwymiadau rhyngwladol o dan Brotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosbi Creulon, Annynol neu Ddiraddiol arall (OPCAT). O dan OPCAT, rhaid i bob lleoliad cadw dderbyn ymweliad rheolaidd gan gyrff annibynnol – a elwir yn Ddull Ataliol Cenedlaethol (NPM) – sy'n monitro amodau carcharorion a sut y maen nhw'n cael eu trin. Mae Arolygiaethau Carchardai a Chwnstabliaeth EM yn ddau o nifer o gyrff y NPM yn y DU.

**2.2** Mae'r arolygiadau o ddalfeydd yn edrych nid yn unig ar sut y gweithredir codau ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) ac Arferion Dal a Chadw Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona, ond hefyd ar strategaethau, triniaeth ac amodau, gofal iechyd a hawliau unigol ar draws y gwahanol heddluoedd. Hysbysir hwynt hefyd gan gyfres o Ddisgwyliadau ar gyfer Dalfeydd yr Heddlu[1] sy'n ymwneud ag amodau carcharu a thrin carcharorion yn briodol, a ddatblygwyd gan y ddwy arolygiaeth i gynorthwyo'r arferion dal a chadw gorau.

**2.3** Hwn oedd yr ail arolygiad o Heddlu Gogledd Cymru, gyda'r cyntaf ym mis Medi 2010. Ers hynny mae'r ystâd dalfeydd wedi mynd ychydig yn llai ac roedd cynlluniau ar gyfer y ddalfa yn Wrecsam wedi datblygu i gytuno ar gyllid ar gyfer dalfa newydd.

**2.4** Mae gan Ogledd Cymru dair dalfa llawn amser a dwy ddalfa rhan amser, yn cynnwys 89 o gelloedd i gyd. Mae capasiti dynodedig y dalfeydd a'r celloedd ym mhob un fel a ganlyn:

| **Dalfa** | **Nifer y celloedd** |
|---|---|
| Caernarfon | 16 |
| Dolgellau (dalfa ran amser) | 7 |
| Caergybi (dalfa ran amser) | 10 |
| Llanelwy | 32 |
| Wrecsam | 24 |

## Strategaeth

**2.5** Roedd ffocws strategol ar faterion cadw yn y ddalfa a strwythur clir o reolwyr llinell hyd at ac yn cynnwys dirprwy brif gwnstabl (ACC). Roedd yr ystâd dalfeydd mewn cyflwr da, ac eithrio yn Wrecsam. Roedd ystod o gyfarfodydd mewnol i drafod materion cadw yn y ddalfa a dywedodd staff wrthym yr holwyd eu barn am ddyluniad y ddalfa newydd, oedd yn beth da. Yn y cyfarfodydd hyn roedd data perfformiad misol yn cael ei drafod, gan gynnwys ystod dda

1 http://www.justice.gov.uk/inspectorates/hmi-prisons/expectations.htm

o ddata ansoddol i roi sicrwydd i reolwyr a phrif swyddogion ynghylch safonau dalfeydd yn Heddlu Gogledd Cymru. I bob golwg roedd cyfansoddiad ac ehangder y cyfarfodydd hyn yn gweithio'n dda, gyda chanlyniadau da i staff a charcharorion.

**2.6** Dywedodd ringylliaid y dalfeydd wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt awdurdod i wrthod mwy o garcharorion os oedden nhw'n llawn. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y dalfeydd yn brysur iawn ac roedd lefel y staff yn ymddangos i fod yn gymesur â'r galw. Roedd y staff yn cynnwys rhingylliaid a swyddogion dalfa (DO) parhaol ond cawsom wybod, ar adegau o alw sylweddol neu brinder staff, ac fel eithriad, fod goramser yn cael ei gynnig i gwnstabliaid (PC) i gyflawni dyletswyddau staff DO. Cyn cychwyn y dyletswyddau hyn roedd angen i bob cwnstabl gwblhau hyfforddiant dalfa penodol, ar ôl cael eu briffio'n briodol gan Ringylliaid y Ddalfa a'u cefnogi fel arfer gan DO hyfforddedig.

**2.7** Roedd Heddlu Gogledd Cymru'n cyfrannu at nifer o bartneriaethau strategol, gan gynnwys protocol gyda'r gwasanaeth iechyd, a arweiniodd at leihad sylweddol yn nifer y cleifion oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa o dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd y trefniadau hyn i'w canmol ac roedd angen i awdurdodau lleol wneud yr un fath gyda phlant yn y ddalfa.

**2.8** I bob golwg roedd y berthynas ag ymwelwyr annibynnol i'r ddalfa'n dda gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n darparu'r ochr graffu. Roedd yr heddlu'n casglu data ar geisiadau gan yr heddlu am lety awdurdod lleol i bobl ifanc oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa, a chanlyniadau'r ceisiadau hynny, ond nid châi ei ddadansoddi'n systematig.

**2.9** Roedd sicrhau ansawdd yn dda iawn. Roedd yn cynnwys hap-samplo, cyd-adolygiadau a dysgu gwersi o ddigwyddiadau niweidiol, i gyd gyda thrywydd archwilio ar gyfer gweithgareddau dysgu a datblygu. Roedd gan staff fynediad da at ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar y fewnrwyd, gan gynnwys dolenni i ffynonellau dysgu eraill, a chylchlythyr ar faterion cadw yn y ddalfa. Nid oedd Heddlu Gogledd Cymru'n cofnodi'r defnydd a wneid o rym yn y ddalfa'n unol â pholisi Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a chanllawiau'r Coleg Plismona, ac roedd cynlluniau i weithredu gweithdrefnau ar gyfer gwneud hyn eto i'w penderfynu'n derfynol.

**2.10** Roedd hunanasesiad wedi'i gyflawni yn erbyn meini prawf disgwyliadau ar gadw yn y ddalfa. Ar y cyfan roedd hwn yn ddull cadarnhaol o wella gofal a safonau yn y ddalfa a bwriadwn i'r adroddiad hwn gynnig rhai arsylwadau defnyddiol ar gyfer yr hunanasesiad nesaf.

## Triniaeth ac amodau

**2.11** Roedd carcharorion yn cael eu trin yn gwrtais gan staff y ddalfa oedd yn wybodus iawn am anghenion amrywiol y carcharorion. Roedd gan y staff sgiliau rhyngbersonol gwych a theimlai'r carcharorion a holwyd gennym y teimlent eu bod yn cael gofal da.

**2.12** Roedd diffyg preifatrwydd i garcharorion wrth gael eu derbyn a allai atal datgelu materion iechyd sy'n berthnasol i asesiadau risg, diogelwch a'r gwaith o reoli carcharorion a staff. Gallai carcharorion hefyd gael eu clywed gan bobl eraill oedd yn cael eu derbyn.

**2.13** Roedd y ffocws ar amrywiaeth wedi gwella ar y cyfan, ond roedd angen gwelliannau pellach i ddiogelu urddas merched yn y ddalfa, yn enwedig yn Wrecsam lle nad oedd digon o gelloedd gyda thoiledau a lle oedd angen i staff y ddalfa fynd gyda'r carcharorion. Dynion oedd y rhan fwyaf o staff y ddalfa, ac roedd yn rhaid i ferch yn y ddalfa roi gwybod i un o staff y dynion fod arni angen mynd i'r toilet ac aros tan oedd un o staff y merched ar gael i fynd gyda hi..

**2.14** Ychydig iawn o bobl ifanc a welsom yn cael eu derbyn i'r ddalfa ac roedd dealltwriaeth dda yn ôl pob golwg na ddylid cadw pobl ifanc yn y ddalfa dros nos. Dywedodd staff wrthym nad

oedd awdurdodau lleol yn darparu llety diogel ond, mewn rhai achosion, bod gofal maeth ar gael.

**2.15** Roedd cadeiriau olwyn a baglau ar gael yn y dalfeydd a dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu cynnig i'r carcharorion a'u defnyddio ganddynt. Eglurodd staff sut oedden nhw'n cyfathrebu â phobl oedd ag anableddau dysgu ac, yn Wrecsam a Chaernarfon, roedd taflen hawdd i'w darllen yn egluro'r broses o gadw yn y ddalfa.

**2.16** Roedd llyfrau ac arteffactau crefyddol yn cael eu storio'n briodol a'u cynnig yn barod at ddefnydd y carcharorion. Roedd staff y ddalfa'n deall amrywiaeth a disgrifiwyd sut oedden nhw'n chwilio'r carcharorion yn barchus mewn cyd-destun crefyddol, diwylliannol a rhywedd.

**2.17** Roedd yr asesiadau risg cychwynnol yn drylwyr ac i safon uchel, gyda'n dadansoddiad ni o gofnodion y ddalfa'n cefnogi hynny. Ym mhob dalfa roedd careiau'n cael eu tynnu fel mater o drefn, beth bynnag oedd y risg, ac yn Llanelwy mae staff yn cadw golwg ar y carcharorion bob 30 munud. Fel arall, roedd rheoli risg yn unigol a deinamig. Roedd staff a holwyd yn glir ynghylch sut i gael ymateb gan garcharorion oedd yn destun archwiliadau dihuno.

**2.18** Roedd llai o'r carcharorion mewn dillad gwrthrwygo na phan gynhaliwyd yr arolygiad blaenorol; fodd bynnag nid oedd defnyddio dillad gwrthrwygo bob amser wedi'i gefnogi gan resymeg glir.

**2.19** Gwelsom nifer o drosglwyddiadau o safon eithriadol uchel. Roedd holl staff y ddalfa'n rhan o'r broses gyda ffocws y trosglwyddo ar reoli risg a ffactorau agored i niwed. Nid oedd nyrsys yn rhan o'r trosglwyddo a byddai cynnwys ymarferwyr gofal iechyd wedi gwella safon drosglwyddo oedd eisoes yn uchel.

**2.20** Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau risg cyn-rhyddhau'n drylwyr, a rhai'n dda iawn. Roedd ystod eang o daflenni cymorth ar gael ac yn cael eu dosbarthu'n gyson. Roedd enghreifftiau o fynd â rhai carcharorion adref neu i'r ysbyty.

**2.21** Yn y rhan fwyaf o achosion ni welsom garcharorion yn gorfod aros mewn gefynnau, ac eithrio yn ystod ein hymweliad nos Wener pan welsom garcharorion ufudd yn aros mewn gefynnau am gyfnodau hir, oedd yn ddiangen.

**2.22** Nid oedd y defnydd o rym yn y ddalfa'n cael ei fonitro, ac roedd yr heddlu wrthi'n adolygu hyn. Roedd staff yn derbyn hyfforddiant diogelwch personol blynyddol gan ddweud wrthym eu bod yn defnyddio technegau i geisio tawelu sefyllfa cyn troi at rym. Roedd rhwystrau coesau ar gael ym mhob un o'r dalfeydd, a dywedodd staff mai pur anaml yr oeddent yn eu defnyddio. Roedd polisi wedi'i ddarparu i ni, ond ni wyddai staff a holwyd yn ystod yr arolygiad amdano.

**2.23** Ychydig iawn o chwilio heb ddillad a wnaed ar adeg yr arolygiad. Dangosodd ddata gan yr heddlu fod nifer y chwiliadau heb ddillad yn Llanelwy bron i bum gwaith yn fwy nag yn Wrecsam, er bod nifer debyg o garcharorion wedi cael eu derbyn i'r ddwy ddalfa, oedd yn destun pryder. Mewn un achos, gofynnodd un o'r staff i un o'r merched yn y ddalfa dynnu ei dillad i gyd a gwisgo dillad gwrthrwygo mewn cell wedi'i monitro gan CCTV oedd i'w gweld ar y monitor y tu ôl i ddesg y ddalfa. Roedd hyn yn amhriodol.

**2.24** Roedd y dalfeydd yn lân, diogel ac mewn cyflwr da. Roedd Wrecsam wedi gwella ers ein harolygiad blaenorol ond roedd dyluniad a chyfleusterau'r ddalfa wedi dyddio. Roedd y celloedd yn cael eu harchwilio'n gyson ym mhob dalfa a diffygion yn cael sylw prydlon.

**2.25** Roedd y carcharorion yn cael gofal da a dywedodd y rhai a holwyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da a bod y staff yn dda. Roedd bwyd a diod yn cael ei ddarparu fel bo angen. Pur

anaml oedd cawodydd ar gael, ac eithrio drwy wneud cais, ac yn Llanelwy ni chynigiwyd cawod i un carcharor oedd wedi chwydu dros ei ddillad.

# Hawliau unigol

**2.26** Roedd defnydd da o fynychu gwirfoddol[2] ac roedd y data ar gael yn dangos lleihad cyffredinol o ran nifer yn cael eu derbyn i'r dalfeydd. Dywedodd ringylliaid y dalfeydd wrthym fod swyddogion yn deall Cod G y Ddeddf PACE[3] ac mai pur anaml oedd angen gwrthod cadw rhywun oherwydd bod swyddogion arestio fel rheol yn defnyddio eu pwerau'n briodol. Dywedodd y rhingylliaid wrthym eu bod weithiau'n gwrthod cadw rhywun pan oedd pryderon iechyd wedi'u nodi oedd yn awgrymu bod angen anfon y carcharor i'r ysbyty neu i uned iechyd meddwl.

**2.27** Ar y cyfan gwelsom ffocws ar leihau amseroedd cadw yn y ddalfa, ond gwelsom hefyd beth anghysondeb o ran amseroedd aros a chofnodi derbyn, oedd yn wahanol i'r amseroedd a roddwyd gan yr heddlu. Roedd gan hyn oblygiadau i fonitro amseroedd cadw cywir a sicrhau bod hawliau'r carcharorion yn cael eu hateb yn amserol.

**2.28** Dywedodd staff wrthym fod rhai o'r carcharorion mewnfudo'n aros yn y ddalfa rhwng 24 awr a dau neu dri diwrnod. Roedd y data'n cadarnhau bod carcharorion mewnfudo ar gyfartalog wedi aros llai na 30 awr yn y ddalfa dros y 12 mis diwethaf.

**2.29** Roedd nifer o gynlluniau oedolion priodol (AA) ar gyfer Gogledd Cymru. Dywedodd staff wrthym fod y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn well na'r gwasanaeth oriau dydd. Roedd y gwasanaeth AA oriau dydd yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol ar gyfer oedolion neu dimau troseddwyr ifanc ar gyfer plant. Dywedodd staff fod oedi weithiau gyda'r ymateb oriau dydd tan oedd y dasg wedi'i haseinio i'r gwasanaeth tu allan i oriau, gan arwain at gadw carcharorion yn hirach. Er bod staff tu allan i oriau, lle gallent, yn mynychu i bwrpas cyfweliad, nid oeddent bob tro'n mynychu'n bersonol i gynnig cefnogaeth ac arweiniad, nac ychwaith ar yr adeg newid. Ni wyddai rai staff am ganllawiau'r Swyddfa Gartref ar gyfer Oedolion Priodol, ac roedd y fersiwn a ddefnyddiwyd wedi dyddio.

**2.30** Soniodd rai staff am drafferthion gyda chael gafael ar wasanaeth cyfieithu wyneb yn wyneb gan arwain at gadw pobl yn hirach yn y ddalfa. Darparwyd dogfennau yn Gymraeg a Saesneg.

**2.31** Er bod digon o daflenni Codau Ymarfer y Ddeddf PACE ar gael yn y dalfeydd, roedd llawer yn hen fersiynau ac felly wedi dyddio. Roedd cynrychiolwyr cyfreithiol yn derbyn copïau o gofnodion dalfa'n rheolaidd a soniodd y rhai y cawsom air â nhw fod ganddynt berthynas dda â'r staff a lynai wrth y gofyniad i egluro wrth garcharorion beth oedd eu hawliau. Gwelsom nifer o adolygiadau PACE trylwyr ac amserol ar draws y gwahanol ddalfeydd. Dangosodd ein dadansoddiad o gofnodion y ddalfa (CRA) nad oedd carcharorion bob amser yn cael eu hatgoffa fod adolygiad wedi digwydd tra oeddent yn cysgu.

**2.32** Dywedodd staff y ddalfa wrthym fod y llysoedd yn cau'n afresymol o fuan a bod carcharorion weithiau'n cael eu cadw yn y ddalfa am rhy hir. Roedd swyddogion yn gallu arestio drwy

---

[2] Fel arfer ar gyfer troseddau llai difrifol, lle mae'r rhai dan amheuaeth yn mynychu gorsaf heddlu drwy apwyntiad i gael eu holi ynghylch troseddau honedig. Mae hyn yn osgoi'r angen i arestio a chadw carcharorion yn y ddalfa.

[3] Mae Cod G PACE yn cyfeirio at Ddeddf Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, sef y cod ymarfer ar gyfer y pwer statudol sydd gan blismyn i arestio.

warant a mynd â charcharor yn syth i'r llys, os oedd rhestr y llys yn gallu eu derbyn a chofnodion y gwasanaeth hebrwng person mewn trefn. Roedd hyn yn fuddiol.

**2.33** Roedd carcharorion oedd am gwyno'n gallu cwyno i arolygydd os oedd un ar gael, neu roedd yn rhaid iddynt wneud eu cwyn ar ôl gadael y ddalfa.

## Gofal iechyd

**2.34** Nid oedd llawer o oruchwylio clinigol oherwydd prinder staff. Roedd tystiolaeth fod y nyrs arwain wedi cyflawni archwiliad o'r cofnodion clinigol. Ar y cyfan roedd yr ystafelloedd meddygol yn addas er nad oedd rhai ffitiadau a gosodion yn cydymffurfio â'r safonau rheoli haint gofynnol a'r ystafelloedd yn aml ddim yn cael eu cloi os nad oeddent yn cael eu defnyddio.

**2.35** Roedd y cyswllt rhwng ymarferwyr gofal iechyd (HCP) a staff y ddalfa'n gadarnhaol. Roedd ymatebion yr ymarferwyr hyn wedi bod yn amserol tan yn ddiweddar pryd oedd prinder gweithwyr HCP. Dywedodd y carcharorion eu bod yn fodlon â'u sesiynau ymgynghori. Roedd therapi disodli nicotin ar gael, ond nid oedd therapi disodli opiadau ar gael yn y ddalfa. Roedd arferion da i sicrhau bod carcharorion yn derbyn meddyginiaeth ragnodedig tra oeddent yn y ddalfa, ac ar gyfer ymatal rhag yfed alcohol tra oeddent yn y llys.

**2.36** Roeddem yn bryderus pan glywsom gan staff a gweithwyr HCP fod adrannau damweiniau ac achosion brys weithiau'n rhyddhau carcharorion yn ôl i'r ddalfa gyda phroblemau heb eu datrys. Roedd yr ysbyty'n tybio y byddai'r carcharorion yn derbyn goruchwyliaeth well a chyson. Roedd hyn yn afresymol ac yn cyflwyno risg sylweddol i'r carcharor ac i'r heddlu.

**2.37** Roedd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n dda. Roedd y gwasanaeth wedi ymestyn ei oriau yn Wrecsam lle oedd carcharorion yn cael eu profi am droseddau sbarduno[4] ar adeg eu harestio. Cynigiwyd mynediad at weithiwr atgyfeirio arestio (ARW) i bob carcharor a siaradodd y carcharorion a'r staff yn uchel am y gwasanaeth.

**2.38** Pur anaml y defnyddiwyd y ddalfa i gadw cleifion adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983[5] yn ddiogel, oedd yn beth da. Fodd bynnag, roedd cynnydd o dros 50% wedi bod yn y defnydd o adran 136 dros y 12 mis diwethaf. Roedd hyn yn awgrymu bod angen sicrwydd ei bod yn cael ei defnyddio'n briodol.

## Prif argymhellion

**2.39** **Dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a grwp prif swyddogion yr heddlu ymgysylltu â'u cydweithwyr yn yr awdurdod lleol a chychwyn adolygiad ar unwaith o'r ddarpariaeth llety awdurdod lleol i blant o dan adran 38(6) PACE 1984. Dylid monitro data perfformiad i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiangen yng nghelloedd yr heddlu.**

---

[4] Mae'r rhain yn droseddau penodol a allai awgrymu fod gan y carcharor broblem camddefnyddio sylweddau.

[5] O dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 gall plismon fynd â rhywun ymaith o le cyhoeddus ac i le diogel – er enghraifft gorsaf yr heddlu. Mae hefyd yn nodi'n glir mai pwrpas mynd â nhw i le diogel yw fel bo'r person yn cael ei archwilio gan feddyg a'i holi gan weithiwr cymdeithasol cymeradwy, ac er mwyn gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer derbyn triniaeth neu ofal.

**2.40 Dylai Heddlu Gogledd Cymru gasglu ynghyd ei ddata ar ddefnyddio grym yn y ddalfa a'i archwilio am unrhyw dueddiadau'n unol â pholisi Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a chanllawiau'r Coleg Plismona.**

**2.41 Dylai Heddlu Gogledd Cymru ymchwilio i'r rhesymau pam fod llawer mwy o chwilio heb ddillad yn Llanelwy na mewn dalfeydd eraill.**

**2.42 Dylai Heddlu Gogledd Cymru ymgysylltu â'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys lleol i sicrhau na ddefnyddir y ddalfa fel rhywle wrth gefn i gadw carcharorion / cleifion.**

# Adran 3. Strategaeth

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae ffocws strategol ar gadw yn y ddalfa sy'n gyrru proses o ddatblygu a defnyddio polisïau a gweithdrefnau dalfa penodol er mwyn diogelu lles carcharorion.**

## Rheoli strategol

**3.1** Roedd dirprwy brif gwnstabl (ACC) yn arwain yn strategol ar faterion cadw yn y ddalfa, gyda swyddogaeth dalfa ganolog yn cael ei darparu drwy'r maes busnes partneriaethau a phortffolio diogelwch cymunedol. Roedd uwch-arolygydd o'r maes busnes yn rheoli prif arolygydd oedd yn gyfrifol am arwain swyddogaeth cadw yn y ddalfa'r heddlu.

**3.2** Ers yr arolygiad diwethaf yn 2010, roedd yr ystâd wedi lleihau o chwe dalfa lawn amser i dair dalfa lawn amser a dwy ran amser. Roedd cyflwr yr ystâd yn dda er bod y dyluniad a'r cyfleusterau yn nalfa Wrecsam wedi dyddio. Roedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCC) wedi cytuno i ariannu dalfa newydd yn Wrecsam yn 2016. Roedd cynlluniau wrth gefn i ddefnyddio'r cyfleusterau dalfa mewn heddluoedd cyfagos pe bai angen.

**3.3** Roedd carcharorion yn cael eu cludo i'r ddalfa agosaf i le cawsant eu harestio. Cawsom wybod bod gan ringylliaid dalfa awdurdod i wrthod mwy o garcharorion pan oedd capasiti eu dalfa'n llawn ar sail rheoli risg yn eu dalfeydd. Roedd penderfyniadau o'r fath yn cael eu cyfathrebu i arolygwyr ymateb neu reolwyr y ddalfa. Yn Nolgellau, roedd rhingylliaid dynodedig y ddalfa yno'n agor y ddalfa dim ond drwy wneud cais. Yn ddiweddar roedd Caergybi i lawr i agor dim ond ar un diwrnod yr wythnos i ddelio â charcharorion oedd ar fechnïaeth i ddychwelyd i orsaf yr heddlu. Nod y dulliau pragmataidd hyn yw sicrhau bod llai o angen i garcharorion deithio'n bell ar draws ardal heddlu eang.

**3.4** Roedd lefelau staff yn y dalfeydd ar adeg yr arolygiad yn ddigonol ar y cyfan. Roedd rhingylliaid dalfa a swyddogion dalfa (DO) parhaol yn cael eu cyflogi gan Heddlu Gogledd Cymru. Roedd cynllunwyr adnoddau dynodedig yn gyfrifol am sicrhau bod absenoldebau rota'n cael eu llenwi drwy ail-drefnu rhestri dyletswydd a symud staff rhwng dalfeydd. Gwelsom dystiolaeth o gynnig goramser i gwnstabliaid (PC) i weithredu fel staff DO. Cawsom ein sicrhau y byddent, cyn cyflawni'r dyletswyddau hyn, yn derbyn hyfforddiant dalfa penodol. Roedd criw dynodedig o ringylliaid ymateb a chymdogaeth a dderbyniodd hyfforddiant dalfa cychwynnol hefyd ar gael i lenwi dyletswyddau rhingylliaid y ddalfa.

**3.5** Roedd y prif arolygydd yn rheoli tri rheolwr y ddalfa (arolygwyr), arolygydd cymorth y ddalfa a rheolwr nyrsio. Roedd cynnwys y rheolwr nyrsio'n cyfrannu at integreiddio gofal iechyd ac yn darparu canlyniadau da i'r carcharorion (gweler yr adran ar ofal iechyd). Roedd y rheolwyr yn cwrdd â gofynion PACE yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnos yn y dalfeydd gyda'r arolygwyr ymateb yn cynorthwyo gyda gofynion PACE y tu allan i'r adegau hyn. Roedd rheolwyr y ddalfa'n rheolwyr llinell ar ringylliaid y ddalfa yn eu gwahanol ddalfeydd.

**3.6** Roedd rhingylliaid y ddalfa'n rheoli'r staff DO oedd yn gyfrifol am ofal a lles y carcharorion. Roedd y staff DO yn darparu gofal i safon dda ac roedd ymddygiad holl staff y dalfeydd yn broffesiynol. Roedd y broses trosglwyddo shifftiau'n gyson ar draws y dalfeydd, ac roedd rhannu gwybodaeth effeithiol yn rhoi canlyniadau da.

**3.7** Roedd strwythur cyfarfodydd mewnol ar gyfer trafod ac adolygu materion cadw yn y ddalfa. Pob chwe wythnos roedd yr ACC yn cadeirio Bwrdd Gweithrediadau gyda phrif arolygydd dalfeydd yr heddlu'n bresennol. Roedd y Bwrdd hwn yn adrodd i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu, wedi'i gadeirio gan y Prif Gwnstabl.  Roedd y PCC yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am berfformiad mewn cyfarfod craffu, lle oedd data ar y dalfeydd a data gan ymwelwyr dalfa annibynnol yn cael ei adolygu. Roedd y prif arolygydd yn cadeirio cyfarfod rheoli dalfa chwarterol oedd yn cael ei fynychu gan arolygwyr y ddalfa a'r rheolwr nyrsio ynghyd â fforwm dalfa strategol bob chwe mis gyda rhanddeiliaid mewnol megis cymdeithasau staff, yr adran gyfleusterau, yr adran safonau proffesiynol ac archwilwyr meddygol fforensig. Yn y cyfarfodydd hyn roedd data perfformiad misol yn cael ei drafod, gan gynnwys ystod dda o ddata ansoddol i roi sicrwydd i reolwyr a phrif swyddogion ynghylch safonau dalfeydd yn Heddlu Gogledd Cymru. I bob golwg roedd y cyfarfodydd hyn yn gweithio'n dda, gyda chanlyniadau da i staff a charcharorion. Roedd y cyfarfod ymgynghori staff yn cael ei gadeirio gan y prif arolygydd a hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o blith rheolwyr a rhingylliaid y ddalfa, staff DO a nyrsys y ddalfa. Dywedodd y staff yr holwyd eu barn am ddyluniad y ddalfa newydd yn Wrecsam.

# Partneriaethau

**3.8** Roedd y prif gwnstabl yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ac yn eistedd ar grwp arweinyddiaeth rhanbarthol y Gogledd, oedd yn bwrw trosolwg strategol ar wasanaethau cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol ar draws yr ardal. Roedd cynrychiolwyr o blith Prif Swyddogion yr Heddlu a phrif weithredwyr sefydliadau partner yn mynychu'r grwp hwn.

**3.9** Roedd protocol gyda phartneriaid gofal iechyd ar ddelio gyda phobl a gedwir o dan adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 wedi arwain at lawer llai o'r bobl hyn yn cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu. Dim ond 17 o bobl a gadwyd yn y ddalfa o dan y ddeddfwriaeth hon dros y 12 mis diwethaf. Roedd y trefniadau hyn yn effeithiol gyda chanlyniadau canmoladwy ond roedd hefyd angen i awdurdodau lleol ddarparu llety diogel ac agored ar gyfer pobl ifanc i gyd-fynd â hyn (gweler yr adran ar driniaeth ac amodau).

**3.10** Roedd prif arolygydd dalfeydd yr heddlu'n mynychu cyfarfod chwarterol yr ymwelwyr dalfa annibynnol.

# Dysgu a datblygu

**3.11** Roedd holl ringylliaid y ddalfa a'r staff DO wedi bod ar gwrs cychwynnol o dair wythnos i dderbyn hyfforddiant dalfa penodol, gyda chyfnod o fentora i ddilyn, cyn cyflawni eu dyletswyddau dalfa. Roeddent hefyd wedi derbyn hyfforddiant gloywi blynyddol ar ddyletswyddau dalfa, wedi'i oleuo gan brosesau sicrhau ansawdd, oedd i'w ganmol.

**3.12** Roedd proses sicrhau ansawdd ffurfiol ar gyfer hap-samplo cofnodion y ddalfa, lle oedd rheolwyr a rhingylliaid y gwahanol ddalfeydd yn cyd-adolygu cofnodion dalfeydd eraill. Roedd hyn yn cael ei oruchwylio gan arolygydd cymorth y ddalfa a phrif arolygydd dalfa'r heddlu. Roedd rheolwyr y ddalfa hefyd yn mynychu ac adolygu trosglwyddo shifftiau. Roedd yr heddlu wedi sefydlu cronfa ddata o ddatblygiad proffesiynol parhaus (CPD) oedd yn darparu trywydd archwilio trylwyr ar gyfer pob proses sicrhau ansawdd ynghyd â chyfathrebu, dysgu a datblygu ehangach.

**3.13** Er bod yr heddlu'n cofnodi'r defnydd a wneir o rym yn y dalfeydd ar gofnod y carcharor, nid yw'n casglu'r data hwn ynghyd mewn ffordd a fyddai'n hwyluso ei archwilio am dueddiadau'n unol â pholisi Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a chanllawiau'r Coleg Plismona. Roedd

bwrdd rheoli gwrthdaro wedi'i sefydlu i ddatblygu a gweithredu gweithdrefn ar gyfer cofnodi a monitro'r defnydd o rym.

**3.14** Roedd gweithdrefn digwyddiadau niweidiol, a elwir yn adrodd digwyddiadau'r ddalfa. Defnyddiwyd y gronfa ddata CPD i adolygu, dadansoddi a lledaenu dysgu o hyn i'r staff.

**3.15** Roedd mewnrwyd yr heddlu'n cynnwys dolenni i ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar gadw yn y ddalfa, gyda dyddiadau adolygu blynyddol wedi'u nodi'n glir yn erbyn bob un. Roedd y wefan hefyd yn cynnwys dolenni i ddogfennau Dysgu Gwersi Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Defnyddiwyd cylchlythyr 'Angen Gwybod' ar draws yr heddlu i gyfathrebu dysgu a datblygu ar faterion cadw yn y ddalfa, fel y bo'n briodol.

**3.16** Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflawni hunan-asesiad cynhwysfawr yn erbyn disgwyliadau Arolygiaethau Carchardai a Chwnstabliaeth EM ar ddalfeydd yr heddlu a thematig ar bobl agored i niwed yn y ddalfa.

## Arfer da

**3.17** *Roedd cynnwys y rheolwr nyrsio yn y tîm rheoli cadw yn y ddalfa'n adlewyrchu pwysigrwydd y ddarpariaeth gofal iechyd yn amgylchedd dalfeydd yr heddlu.*

# Adran 4. Triniaeth ac amodau

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Cedwir y carcharorion mewn amgylchedd glân a gweddus lle diogelir eu diogelwch a lle caiff eu hanghenion amrywiol a lluosog eu cwrdd.**

## Parch

**4.1** Dangosodd staff y dalfeydd sgiliau rhyngbersonol gwych. Roeddent yn trin y carcharorion gyda pharch ac yn ystyried eu hanghenion drwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa. Gwelsom ringylliaid y ddalfa'n egluro'r broses dderbyn ac yn rhoi gwybod iddynt am eu hawliau a mynediad at ddeunyddiau darllen, prydau bwyd a diodydd. Ar adeg yr arolygiad, roedd nifer y carcharorion a ddaeth i mewn i'r ddalfa'n isel. Dywedodd y rhai a holwyd gennym fod y staff yn dda ac yn gofalu amdanynt yn dda.

**4.2** Os oedd staff yn ystyried bod carcharorion yn arbennig o agored i niwed oherwydd oed, iechyd neu gapasiti meddyliol, roeddent yn ceisio tawelu eu meddyliau. Roedd nifer o garcharorion yn y tair prif ddalfa'n cael aros mewn bwth cadw o fewn golwg i'r ardal dderbyn yn hytrach na'n cael eu rhoi mewn cell. Roedd y carcharorion yn gwerthfawrogi hyn.

**4.3** Roedd diffyg preifatrwydd pan oedd carcharorion yn cael eu derbyn. Nid oedd unrhyw sgriniau i wahanu'r desgiau derbyn a gellid clywed y gwahanol sgyrsiau'n hawdd. Gallai hyn wneud i'r carcharorion beidio â datgelu materion iechyd perthnasol i'r asesiad risg ac i reolaeth a diogelwch y carcharorion a'r staff. Nid oedd rhingylliaid y ddalfa'n gwneud fawr ddim ymdrech i sicrhau preifatrwydd ac, yn Wrecsam, gofynnwyd cwestiynau asesiad risg i un carcharor tra safai un arall gerllaw.

**4.4** Roedd y ffocws ar amrywiaeth wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Roedd staff y ddalfa wedi derbyn hyfforddiant, er enghraifft ar anableddau dysgu ac effaith cadw yn y ddalfa ar ferched yn y ddalfa. Roedd peth o'r dysgu hwn i'w weld yn glir yn eu hymarfer. Fodd bynnag, roedd angen gwella'r cydbwysedd rhywedd y staff er mwyn parchu urddas merched yn y ddalfa. Yn Wrecsam, yn aml nid oedd toiledau yn y celloedd ac roedd yn rhaid i'r carcharorion ganu'r gloch yn eu cell a gofyn i rywun fynd gyda nhw i'r toiled. Codai hyn gywilydd ar y merched yn enwedig os nad oedd un o staff y merched ar ddyletswydd. Roedd staff y ddalfa'n cynnig eitemau hylendid merched iddynt ac yn sicrhau mai ond staff y merched oedd yn eu chwilio, ond nid oedd yn fater o drefn gofyn a allent fod yn feichiog.

**4.5** Roedd ystafelloedd ar gael ym mhob un o'r dalfeydd i gadw plant a phobl ifanc. Roeddent yr un fath yn union bron â chelloedd arferol ond yn aml heb doiledau yn y gell. Ac eithrio yn Wrecsam, roedd yr ystafelloedd hyn yn nes at ddesg y ddalfa. Roedd staff yn cadw golwg ar blant a phobl munud bob 30 munud. Ychydig iawn o bobl ifanc a welsom yn cael eu derbyn yn ystod yr arolygiad a dywedodd y rhan fwyaf o staff wrthym mai dim ond yn niffyg dim arall y byddai person ifanc yn cael ei gadw yn y ddalfa dros nos, oedd yn beth da. Yn ystod yr arolygiad, roedd y data ar nifer y bobl ifanc dan 18 oed oedd wedi'u cadw yn y ddalfa dros nos yn y 12 mis blaenorol, oherwydd bod mechnïaeth wedi'i wrthod gan swyddog y ddalfa, yn amwys ac roedd angen mwy o eglurder yn ei gylch. Cawsom wybod gan yr heddlu nes ymlaen fod 44 o bobl ifanc o'r fath wedi'u cadw gan yr heddlu dros nos heb unrhyw gofnod y daethpwyd o hyd i lety addas ar gyfer yr un ohonynt gan yr awdurdod lleol.

**4.6** Roedd y ddarpariaeth yn rhesymol ar gyfer carcharorion hŷn a rhai ag anableddau. Roedd dwy gell wedi'u haddasu yng Nghaernarfon gyda chlychau galw is, roedd dolenni clyw ar gael yn Wrecsam a Chaernarfon, ac roedd cadeiriau a baglau'n cael eu cynnig a'u defnyddio gan y

carcharorion ym mhob un o'r dalfeydd. Roedd matresi trwchus ar gael i garcharorion oedd yn canfod bod plinth y gwely'n rhy isel a gwelsom y rhain yn cael eu defnyddio. Eglurodd staff sut oedden nhw'n cyfathrebu â charcharorion ag anableddau dysgu ac, yn Wrecsam a Chaernarfon, roedd taflen hawdd i'w darllen yn egluro'r broses o gadw yn y ddalfa.

**4.7** Roedd staff y ddalfa'n deall amrywiaeth crefyddol ac roedd gan bob dalfa gyflenwad da o eitemau gan gynnwys matiau gweddïo, cwmpawd i benderfynu ym mha gyfeiriad oedd Mecca, a llyfrau crefyddol, i gyd yn cael eu storio'n briodol. Roedd gan staff ymwybyddiaeth dda o chwilio oedd yn parchu diwylliant, crefydd a rhywedd y carcharor, a sut i chwilio carcharorion trawsrywiol yn briodol.

## Argymhelliad

**4.8** **Dylai'r ardaloedd derbyn ganiatáu ar gyfer cyfathrebu effeithiol a phreifat rhwng staff a charcharorion.** (Ailadrodd argymhelliad 4.7)

## Diogelwch

**4.9** Gwelsom garcharorion yn cyrraedd y dalfeydd a chafodd asesiad risg ei gyflawni ar gyfer pob un ohonynt. Roedd rhingylliaid y ddalfa'n siarad gyda'r carcharorion i ofyn cwestiynau o system gofnodion dalfa'r heddlu am iechyd, risg ac anghenion unigol. Roeddent yn gofyn cwestiynau ategol priodol mewn ffordd sensitif a medrus pan oedd carcharorion yn datgelu risgiau posibl. Roedd rhingylliaid a swyddogion cadw (DO) y ddalfa'n gweithio'n dda gyda'i gilydd: Roedd y staff DO yn cyflawni archwiliadau ar gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu ac yn rhannu unrhyw wybodaeth rybuddio â rhingyll y ddalfa. Fodd bynnag, roeddem yn bryderus nad oedd staff yn gofyn i'r carcharorion, fel mater o drefn, a oedden nhw'n ofalwyr ac yn gyfrifol am ddibynyddion tra oeddent yn y ddalfa. Roedd ymarferwyr gofal iechyd yn helpu staff y ddalfa i benderfynu a oedd y carcharorion yn ffit i gael eu cadw a'u holi a sut i reoli eu hanghenion corfforol ac iechyd meddwl yn ddiogel. Roedd staff yn gofyn i bob carcharor a oedden nhw am weld gweithiwr atgyfeirio arestio am gyngor ynghylch camddefnyddio sylweddau, ond ni chynigiwyd fawr ddim eglurhad ynghylch eu rôl.

**4.10** Cadarnhaodd ein CRA fod asesiadau risg manwl yn cael eu cyflawni i safon dda gyda phob carcharor a bod y trefniadau cadw golwg yn cael eu cynyddu neu eu lleihau i adlewyrchu sefyllfaoedd gwahanol. Er yr asesiadau risg da iawn yn Llanelwy, gwelsom fod pob carcharor yn destun cadw golwg bob 30 munud neu gadw golwg bob 30 munud gydag archwiliadau dihuno os oedden nhw dan ddylanwad alcohol. Dywedodd staff y ddalfa wrthym ei bod yn arferol i staff DO gadw golwg bob 30 munud ar bob carcharor. Roedd y bwriad yn dda ond gallai'r arfer hwn efallai guddio risgiau gwirioneddol os nad yw carcharorion sy'n ddiogel i gael eu monitro bob awr yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth rai sydd efallai angen mwy o oruchwyliaeth arnynt. Roedd mnemonig y "4 R" (gweithdrefn ddihuno a nodir yn atodiad H i gôd C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984) ond wedi'i arddangos yng nghoridorau'r celloedd yn Llanelwy i atgoffa'r staff DO. Roedd staff y ddalfa'n deall yn llwyr pa mor bwysig oedd cael ymateb yn ystod archwiliadau dihuno.

**4.11** Roedd staff y ddalfa'n tynnu esgidiau a chareiau o ddillad y carcharorion fel mater o drefn beth bynnag oedd eu risg neu brofiad blaenorol o hunan-niwed. Dywedodd rai staff hefyd wrthym na fyddent yn caniatáu i garcharorion fynd â'u sbectols i mewn i'w celloedd oedd yn awgrymu dull mecanyddol o reoli risg.

**4.12** Roedd dillad gwrthrwygo ar gael yn y dalfeydd a rhoddodd y staff nifer o enghreifftiau o bryd y byddent yn eu defnyddio, ond nid oedd dull cyson ar gyfer hyn. Gwelsom un carcharor oedd wedi'i adnabod yn ddiweddar ar gyfer risg o hunan-niwed yn cael ei roi mewn dillad

gwrthrwygo, ond dywedodd wrth staff nad oedd yn bwriadu gwneud niwed iddo'i hun. Cafodd ei roi mewn cell wedi'i monitro gan CCTV. Dywedodd y carcharor wrthym ei fod yn meddwl iddo gael ei roi yn y dillad oherwydd ei fod wedi meddwi'n gaib pan gafodd ei dderbyn. Roedd staff y ddalfa wedi gadael i'r carcharor wisgo ei ddillad ei hun pan adawodd y gell i weld ei gyfreithiwr. Dywedodd staff wrthym fod llawer llai o ddefnyddio dillad gwrthrwygo ers yr arolygiad blaenorol, ond nid oedd cofnodion wedi'u cadw o bryd oedden nhw'n cael eu defnyddio. Nid oedd y defnydd o ddillad gwrthrwygo bob amser wedi'i nodi'n gywir yn y cynlluniau gofal.

**4.13** Roedd gan bob dalfa rai celloedd gyda CCTV ac roedd staff y ddalfa'n defnyddio CCTV yn briodol i gadw golwg ar garcharorion oedd yn destun pryder ond na gyflwynai risg ddigon uchel i fod yn destun gwyliadwriaeth agos. Roedd gan y staff i gyd gyllyll gwrth-grog.

**4.14** Yn yr arolygiad blaenorol nid oedd amser trosglwyddo ffurfiol ar gyfer pob shifft. Roedd pethau wedi newid ers hynny a gwelsom nifer o achosion trosglwyddo o safon eithriadol dda, rhai ohonynt yn arbennig o wych. Roedd y broses drosglwyddo'n canolbwyntio ar reoli risg a ffactorau agored i niwed gyda holl staff y ddalfa'n cymryd rhan, ond nid y nyrsys gofal iechyd. Gellid gwella mwy fyth ar y broses hon drwy gynnwys staff gofal iechyd a phe bai rhingylliaid sy'n cymryd drosodd yn ymweld â'r carcharorion ar ôl trosglwyddo.

**4.15** Roedd y cynllunio risg cyn-rhyddhau'n well na'r hyn a welwn fel arfer. Pan oedd gan ringyll y ddalfa bryderon cryf am les carcharor, trefnodd gyfweliad ffitrwydd i ryddhau gyda'r HCP. Cadarnhawyd hyn gan y gweithwyr HCP ond roeddent hefyd wedi gweld llawer o garcharorion nad oedd angen asesiad o'r fath yn eu barn nhw. Yn Wrecsam cafodd ddyn oedrannus oedd yn destun ymchwiliad i gam-drin rhywiol hanesyddol ei asesu gan y HCP. Gwnaeth yn siwr ei fod yn gwybod am linellau cymorth a ffoniodd ei wraig, yn ei bresenoldeb, i ofyn a fyddai'n ei gefnogi. Cafodd ddyn a gymrodd gorddos yn ddiweddar apwyntiad gyda nyrs seiciatrig yn yr ysbyty lleol ac, ar ôl ei ryddhau, aeth plismyn â fo i'w apwyntiad. Roedd taflenni rhagorol ar ffynonellau cymorth yn lleol, gan gynnwys taflenni arbenigol i staff blaenorol y lluoedd arfog. Cafodd daflen genedlaethol i droseddwyr rhyw gyda manylion am y llinell gymorth *Stop it Now* ei dosbarthu gan swyddogion ymchwilio. Cadarnhaodd ein CRA fod taflenni cymorth yn cael eu rhoi'n rheolaidd a bod y rhan fwyaf o ffactorau agored i niwed yn cael eu hadnabod. Roedd enghreifftiau o fynd â rhai carcharorion adref neu i'r ysbyty.

**4.16** Yn Llanelwy, oedd yn ddalfa anghysbell, roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi talu am dacsi i'r dref leol neu wedi trefnu cludiant arall i fynd â charcharorion adref ar ôl eu rhyddhau.

# Argymhellion

**4.17** **Dylid ond tynnu sbectols, esgidiau a chareiau'r carcharorion os yw'r asesiad risg yn tybio bod angen gwneud hynny.**

**4.18** **Dylid egluro'n gliriach i'r staff sut i ddilyn y gweithdrefnau dillad gwrthrwygo i sicrhau y defnyddir hwynt ond pan fydd ffactorau risg yn nodi bod angen.** (Ailadrodd argymhelliad 2.23)

**4.19** **Dylid cynnwys ymarferwyr gofal iechyd yn y broses drosglwyddo a dylai rhingylliaid sy'n cymryd drosodd yn y ddalfa ymweld â'r carcharorion.**

**4.20** **Dylid gofyn i bob carcharor fel mater o drefn a ydynt yn gyfrifol am ddibynyddion a allai gael eu heffeithio gan eu harhosiad yn y ddalfa.**

## Pwynt cadw tŷ

**4.21** Dylid arddangos y rhestr atgoffa ar ‘ddihuno' carcharorion ym mhob dalfa.

## Defnyddio grym

**4.22** Ychydig iawn o garcharorion a welsom yn cyrraedd yn y ddalfa mewn gefynnau ac, ar gyfer rhai oedd yn eu gwisgo, cawsant eu tynnu’n syth ar ôl cyrraedd. Yr eithriad i hyn oedd ar yr ymweliad noson yn Llanelwy lle gwelsom nifer o garcharorion wedi meddwi mewn gefynnau yng ngheir yr heddlu am hyd at 40 munud yn aros i gael mynd i mewn i’r ddalfa, oedd yn annerbyniol. Roedd rhingylliaid y ddalfa'n gofyn yn briodol a ddefnyddiwyd unrhyw rym cyn iddynt gyrraedd y ddalfa a chofnodwyd hyn ar system y ddalfa. Nid oedd ffurflen defnyddio grym ar wahân mwyach ar gael er mwyn gallu craffu neu ddadansoddi’r data i nodi unrhyw dueddiadau. Roedd hwn yn faes risg a chawsom wybod bod yr heddlu’n adolygu’r sefyllfa (gweler yr adran ar strategaeth).

**4.23** Roedd holl staff y dalfeydd wedi derbyn hyfforddiant diogelwch personol a hyfforddiant gloywi diogelwch personol blynyddol.

**4.24** Roedd rhwystrau coesau ar gael ym mhob un o’r dalfeydd a dywedodd staff mai pur anaml yr oeddent yn eu defnyddio. Roedd polisi wedi’i ddarparu i ni, ond ni wyddai staff a holwyd yn ystod yr arolygiad amdano.

**4.25** Ychydig iawn o chwilio heb ddillad a welsom. Roedd data a roddwyd gan yr heddlu’n awgrymu bod nifer y carcharorion drwy’r ddalfa’n debyg yn Wrecsam (6,070) a Llanelwy (6,161) ond roedd nifer y chwiliadau heb ddillad yn y 12 mis cyn yr arolygiad yn 73 am y naill a 322 am y llall. Roedd hyn yn destun pryder. Mewn un achos, gofynnodd un o’r staff i un o’r merched yn y ddalfa dynnu ei dillad i gyd a gwisgo dillad gwrthrwygo mewn cell wedi'i monitro gan CCTV oedd i’w gweld ar y monitor y tu ôl i ddesg y ddalfa. Roedd hyn yn amhriodol.

## Argymhellion

**4.26** **Dylid derbyn carcharorion i’r ddalfa mewn ffordd amserol. Dylid tynnu gefynnau oddi ar y carcharorion ar ôl iddynt gyrraedd, oni bai fod asesiad risg yn nodi fel arall.**

**4.27** **Ni ddylid arsylwi ar garcharorion drwy CCTV pan fydd eu dillad yn cael eu tynnu.**

## Amodau ffisegol

**4.28** Roedd y ddalfa yn Wrecsam yn llawer glanach nag yn ystod yr arolygiad blaenorol ond roedd ei dyluniad a’i chyfleusterau wedi hen ddyddio. Nid oedd golau naturiol mewn rhai celloedd a dim toiled mewn llawer ohonynt. Roedd gan Heddlu Gogledd Cymru gynlluniau i gau'r ddalfa hon ac adeiladu un newydd erbyn 2016.

**4.29** Roedd y dalfeydd yn Llanelwy a Chaernarfon yn ddiogel, golau, glân a chymharol fodern. Roedd Caergybi a Dolgellau, er ychydig yn hyn a llawer llai prysur, yn parhau i fod o safon dda.

**4.30** Roedd y celloedd yn cael eu harchwilio rhwng arhosiad pob carcharor ac roedd proses archwilio celloedd ddyddiol ac wythnosol. Roedd rheolwyr y ddalfa'n sicrhau ansawdd y broses hon gydag unrhyw ddiffygion yn y celloedd yn cael sylw prydlon gan yr adran rheoli ystâd. Roedd staff DO yn ymateb yn brydlon i ganu clychau yn y celloedd. Gwelsom garcharorion yn cael eu rhoi mewn celloedd gan staff DO ond nid oedden nhw bob amser yn cael gwybod pryd na sut i ganu cloch y gell. Roedd lluniau'r toiledau ar CCTV wedi'u cuddio ond ni wyddai bob carcharor hynny.

**4.31** Roedd y staff ym mhob dalfa'n wybodus am y weithdrefn ar wagu'r adeilad yn achos tân a chawsom wybod ganddynt y cynhaliwyd driliau tân yn eithaf diweddar. Roedd stociau digonol o efynnau ar gael wrth law.

## Pwyntiau cadw tŷ

**4.32** Dylid egluro wrth bob carcharor sut i ddefnyddio'r gloch yn y gell.

**4.33** Dylid rhoi gwybod i bob carcharor na ellir eu gweld ar y CCTV pan fyddant yn defnyddio'r toiled.

## Gofal o'r carcharorion

**4.34** Roedd y carcharorion yn cael gofal da a dywedodd y rhai a holwyd y teimlent eu bod yn cael gofal da a bod y staff yn dda. Roedd matresi glân ar gael ym mhob cell ond nid oedd gan bob un o'r dalfeydd obenyddion. Roedd digonedd o flancedi glân a gwelsom staff ym mhob un o'r dalfeydd yn eu cynnig i'r carcharorion.

**4.35** Roedd carcharorion y tynnwyd eu dillad ar gyfer tystiolaeth neu hylendid yn cael cynnig trowsus loncian, crysau chwys a phlimsolau, oedd ar gael mewn gwahanol feintiau. Roedd dillad isaf papur hefyd ar gael. Yn Wrecsam a Chaernarfon roedd unrhyw ddillad na allai'r carcharorion eu cadw yn eu cell gyda nhw'n cael eu gadael yn ddiofal ar y llawr y tu allan i'w cell.

**4.36** Roedd digonedd o eitemau ymolchi a phecynnau hylendid i ferched ond nid oedd digon o rasals diogelwch i garcharorion oedd am eillio cyn mynychu'r llys.

**4.37** Roedd gan bob dalfa gawodydd glân gyda phreifatrwydd rhesymol. Dywedodd y staff nad oeddent bob amser yn gallu cynnig cawodydd ac fel arfer yn cynnig os oedd carcharor yn gofyn ac roedd digon o staff. Cadarnhaodd ein CRA na chynigiwyd cyfleusterau ymolchi i'r un o'r pedwar carcharor a ryddhawyd i'r llys, er iddynt i gyd dreulio mwy na 12 awr yn y ddalfa (31 awr yn achos un). Yn Llanelwy nid oedd carcharor oedd wedi chwydu yn ei gell ac wedi'i rhoi mewn dillad gwrthrwygo wedi cael cynnig cawod y bore wedyn. Roedd papur toiled ar gael yn y rhan fwyaf o gelloedd ond nid ym mhob un.

**4.38** Roedd gan bob dalfa stoc dda o brydau popty micro a bariau grawnfwyd oedd yn addas ar gyfer gwahanol anghenion diet. Roedd staff yn darparu mwy nag un pryd os oedd angen. Gwelsom brydau bwyd yn cael eu cynnig i garcharorion oedd newydd gyrraedd, y tu allan i amseroedd prydau bwyd arferol.

**4.39** Roedd iard ymarfer corff y tu allan i bob un o'r dalfeydd, gyda CCTV. Gwelsom garcharorion yn yr iard ymarfer corff mewn rhai o'r dalfeydd, ond yn ein CRA dim ond tri charcharor yn ein sampl (10%) oedd wedi derbyn ymarfer corff y tu allan. Roedd y carcharorion hyn wedi bod yn y ddalfa am 14, 23 a 31 awr. Roedd yn amlwg fod ymarfer corff o'r fath yn cael ei gynnig yn ystod adolygiadau o gadw yn y ddalfa.

**4.40** Roedd cyflenwad bychan o ddeunydd darllen ym mhob dalfa, ond dim llawer o gwbl i bobl ifanc neu mewn ieithoedd tramor. Mewn dwy ddalfa roedd staff wedi dod â chylchgronau a ddefnyddiwyd ond nid oeddent yn mynd ati i bwrpas i gynnig unrhyw beth i basio'r amser. Dangosodd ein dadansoddiad mai ond i un carcharor yn y sampl y cynigiwyd rhywbeth i'w ddarllen iddo. Roedd ystafelloedd ymweliadau cymdeithasol caeedig ac addas ar gael ym mhob dalfa. Cawsom wybod bod modd hwyluso ymweliadau cymdeithasol ond mai pur anaml oedd hyn yn digwydd.

## Argymhellion

**4.41** **Dylid cynnig cawod i bob carcharor a gedwir dros nos, ac i rai sydd angen un, a dylent fod yn gallu cymryd eu cawod yn breifat.**

**4.42** **Dylid cynnig amser y tu allan mewn iard ymarfer corff i garcharorion.**

## Pwyntiau cadw tŷ

**4.43** Dylid darparu gobenyddion ym mhob dalfa.

**4.44** Dylid storio dillad y carcharorion yn briodol.

**4.45** Dylid cadw stoc o rasals untro fel y gall carcharorion, ar ôl gwneud asesiad risg, sydd am eillio cyn gadael neu fynychu'r llys wneud hynny.

**4.46** Dylai cyflenwad bychan o bapur toiled fod ar gael ym mhob cell, yn seiliedig ar asesiad risg.

**4.47** Dylai ystod o ddeunyddiau darllen fod ar gael a chael eu cynnig yn rheolaidd, gan gynnwys llyfrau a chylchgronau addas i bobl ifanc, ac i garcharorion gyda mamiaith heblaw'r Saesneg.

**4.48** Dylid hwyluso ymweliadau cymdeithasol lle bo'n briodol.

# Adran 5. Hawliau unigol

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Rhoddir gwybod i garcharorion am eu hawliau unigol ar ôl cyrraedd a medrant ymarfer yr hawliau hynny'n rhydd yn y ddalfa.**

## Hawliau ar gadw yn y ddalfa

**5.1** Roedd rhingylliaid y ddalfa'n cadarnhau gyda'r swyddogion arestio beth oedd y rhesymau dros gadw'r person yn y ddalfa i sicrhau eu bod yn briodol. Dywedodd y rhingylliaid mai pur anaml oedd angen iddynt wrthod cadw rhywun oherwydd bod plismyn yn ymwybodol o feini prawf Cod G y Ddeddf PACE[6]. Roeddent weithiau wedi gwrthod awdurdodi cadw rhywun pan oedd pryderon iechyd wedi'u hadnabod.

**5.2** Roedd mynychu gwirfoddol[7] ar gael yn lle cadw yn y ddalfa a chredai'r staff fod defnydd da o hyn, yn enwedig ar gyfer mannau gwledig mwy anghysbell. Roedd y data'n cadarnhau fod mynychu gwirfoddol wedi cynyddu i 787 o fynychwyr rhwng Medi 2013 ac Awst 2014 o'i gymharu â 77 dros yr un cyfnod rhwng 2011 a 2012. Roedd nifer y carcharorion drwy'r ddalfa wedi gostwng o fwy na 2000 dros yr un cyfnod.

**5.3** Roedd yr holl staff yn gwybod bod angen cadw pobl yn y ddalfa am gyn lleied o amser â phosibl a'r rhingylliaid yn glir ynghylch eu rhwymedigaeth i symud achosion ymlaen yn gyflym. Yn Wrecsam gwelsom un carcharor oedd wedi'i arestio, ei holi a'i ryddhau ar fechnïaeth o fewn dwy awr heb gael ei roi mewn cell o gwbl. Dangosodd ein CRA mai'r amser cadw cyfartalog yn y ddalfa oedd 9 awr 32 munud ac roedd 40% o'r carcharorion yn cael eu cadw am lai na chwe awr. Roedd hyn yn adlewyrchu'r data a dderbyniwyd gan yr heddlu.

**5.4** Gwelsom y rhan fwyaf o garcharorion yn cael eu derbyn yn brydlon ar ôl cyrraedd yn y ddalfa, ond nid oedd y rhingylliaid bob amser yn gofyn i'r swyddogion arestio pryd oedden nhw wedi cyrraedd yn y ddalfa. Mewn dau achos o leiaf, roedd y carcharorion wedi aros mewn ciw am hyd at 15 munud gyda'r amser derbyn yn hytrach na'r amser cyrraedd wedi'i gofnodi. Roedd gan y bwlch amser hwn oblygiadau o ran gallu cwrdd yn amserol â hawliau'r carcharorion. Dangosodd ddata gan yr heddlu mai'r amser aros cyfartalog rhwng cyrraedd y ddalfa ac awdurdodi cadw'r carcharor yn y ddalfa oedd pum munud yng Nghaernarfon a Wrecsam a naw munud yn Llanelwy, oedd yn anghywir o'r arferion a welsom drosom ein hunain.

**5.5** Dywedodd staff y ddalfa fod perthynas dda gyda swyddogion gorfodi mewnfudo'r Swyddfa Gartref ac roedd dau o blismyn Gogledd Cymru ar secondiad gyda'r adran pan gynhaliwyd yr arolygiad. Roedd carcharorion mewnfudo oedd i'w trosglwyddo i ganolfannau symud mewnfudwyr fel arfer yn cael eu symud o fewn 24 awr, er bod rhai'n aros yn y ddalfa am hyd at ddau neu dri diwrnod. Roedd data gan yr heddlu'n nodi bod 112 o garcharorion mewnfudo wedi'u cadw yn y ddalfa dros y 12 mis blaenorol am amser cyfartalog o tua 30 awr.

---

[6] Mae Cod G PACE yn cyfeirio at Gôd G Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, sef y cod ymarfer ar gyfer y pwer statudol sydd gan blismyn i arestio pobl.
[7] Fel arfer ar gyfer troseddau llai difrifol, lle mae'r person dan amheuaeth yn mynychu gorsaf heddlu drwy apwyntiad i gael eu holi ynghylch troseddau honedig. Mae hyn yn osgoi'r angen i'w harestio a'u cadw yn y ddalfa.

**5.6** Dywedodd y staff wrthym na fyddai'r ddalfa byth yn cael ei defnyddio fel rhywle i gadw plant yn ddiogel o dan Adran 46 Deddf Plant 1989[8], oedd yn groes i'r hyn a welsom yn ein harolygiad blaenorol yn 2010.

**5.7** Roedd staff y ddalfa'n glir beth oedd eu cyfrifoldeb i gysylltu ag oedolyn priodol (AA) wrth ddelio ag oedolion agored i niwed neu bobl ifanc o dan 18 oed. Roedd yr heddlu'n cysylltu yn y lle cyntaf â theulu neu ffrindiau ond, os nad oeddent ar gael, roeddent yn cysylltu â'r timau troseddwyr ifanc lleol neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Mewn rhai ardaloedd y tu allan i oriau gwaith, y Gwasanaeth Oedolion Priodol (TAAS) oedd yn darparu'r gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc, mewn ardaloedd eraill roedd y gwasanaeth tu allan i oriau ar gyfer pobl ifanc ac oedolion agored i niwed yn cael ei ddarparu gan dîm dyletswydd brys y gwasanaethau cymdeithasol (EDT). Dywedodd staff wrthym fod y gwasanaeth tu allan i oriau'n fwy effeithlon na'r gwasanaeth oriau swyddfa: yn aml roedd yn rhaid i garcharorion oedd yn y ddalfa'n hwyr y prynhawn aros i AA fynychu o'r gwasanaeth tu allan i oriau oherwydd nad oedd neb o'r gwasanaeth oriau dydd ar gael.

**5.8** Roedd pump (17%) o bobl ifanc rhwng 15 a 17 oed yn ein sampl CRA. Roedd gan bob un o'r pump AA yn bresennol tra darllenwyd eu hawliau iddynt a hefyd wrth iddynt gael eu holi. Roedd yn rhaid i ddau o'r bobl ifanc aros yn hir am AA. Roedd un person wedi cyrraedd y ddalfa ychydig cyn 11.30pm. Yn wreiddiol roedd am i aelod o'i deulu fod yn AA ond ni allai ddarparu manylion cyswllt ar eu cyfer. Yn y diwedd cysylltwyd ag AA o'r Tîm YOT y bore canlynol am 10.33am a gyrhaeddodd am 12.02pm ar yr un pryd â chyfreithiwr y person ifanc. Nid oedd cyfiawnhad dros yr oedi hwn ac i bob golwg nid oedd neb wedi meddwl gofyn i'r AA fynychu yn y cyfamser. Roedd person ifanc arall wedi cyrraedd y ddalfa wedi meddwi ac wedi'i roi ar gyfnod gorffwys o wyth awr. Yn fuan ar ôl iddi gyrraedd cysylltwyd â'i mam ond cafodd wybod na fyddai'r cyfweliad yn cael ei gynnal tan y bore ac na ddylai gyrraedd tan hynny. Daeth ei mam i'r ddalfa 8 awr 46 munud ar ôl i'r person ifanc gyrraedd yn y ddalfa.

**5.9** Cawsom air ag aelod o staff o'r EDT yn Llanelwy oedd yn gweithredu fel AA ar gyfer oedolyn agored i niwed. Gadawodd ar ôl i'r cyfweliad gyda'r person ddod i ben wrth aros am benderfyniad ynghylch ei gyhuddo. Cafodd y person yna ei gyhuddo am 3.35am y bore canlynol ac roedd yn siomedig bod aelod arall o'r EDT wedi gorfod gweithredu fel AA dros y ffôn yn hytrach na bod yno'n bersonol i gefnogi'r oedolyn agored i niwed. Cawsom wybod bod hyn yn digwydd yn aml a'i fod yn ddull ymarferol o ddelio â phellteroedd daearyddol eang ardal yr heddlu.

**5.10** Ni wyddai rai rhingylliaid y ddalfa fod dogfen ganllawiau ar gael i aelodau'r teulu neu ffrindiau oedd yn gweithredu fel AA, ac nid oedd bob amser yn cael ei rhoi iddynt. Roedd y ddogfen oedd ar gael i staff wedi dyddio.

**5.11** Roedd gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn ar gael i gynorthwyo'r broses dderbyn. Gwelsom hyn yn digwydd drwy ddefnyddio ffonau uchelseinydd oedd yn swnllyd a heb breifatrwydd. Dywedodd staff wrthym fod y gwasanaeth cyfieithu yn aml yn methu â darparu cyfieithwyr wyneb yn wyneb oedd wedi achosi oedi i garcharorion wrth orfod ystyried ffynonellau cyfieithu eraill. Yng Nghaernarfon yn ystod yr arolygiad cysylltwyd â'r gwasanaeth am 3.40am i ofyn am gyfieithydd Albaniaidd ac eto am 8.50am pryd y cawsant wybod na ellid anfon cyfieithydd wyneb yn wyneb. Roedd gwasanaeth arall wedi darparu cyfieithydd a gyrhaeddodd y ddalfa am 2.30pm. Yn ein CRA roedd un carcharor wedi gofyn am gyfieithydd Twrcaidd a gyrhaeddodd bum awr yn ddiweddarach. Roedd oedi o'r fath yn annerbyniol. Roedd dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

---

[8] O dan Adran 46(1) Deddf Plant 1989 mae gan blismyn bwer, os oes ganddynt le rhesymol i gredu y byddai plentyn fel arall yn dioddef niwed sylweddol, i symud y plentyn i lety addas a'i gadw ef neu hi yno.

**5.12** Wrth gael eu derbyn, roedd rhingylliaid y ddalfa'n rhoi gwybod i'r carcharorion am eu tair prif hawl ac yn cynnig hysbysiad ysgrifenedig yn nodi eu hawliau tra byddent yn y ddalfa. Roedd sawl fersiwn o'r hysbysiad hwn ar gael ym mhob un o'r tair dalfa lawn amser, a dim ond un oedd wedi'i diweddaru. Gwyddai staff y ddalfa sut i gael gafael ar y dogfennau hyn mewn ieithoedd tramor a gwelsom hwynt yn cael eu rhoi'n gyson i'r carcharorion. Nid oedd cofnod yn cael ei gadw o hyn. Ni wyddai staff y ddalfa fod fersiwn luniau hawdd i'w darllen o'r hawliau ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

## Argymhellion

**5.13** **Dylai rhingylliaid y ddalfa ofyn i'r swyddogion arestio pryd maen nhw'n cyrraedd gyda'r carcharorion a sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi'n gywir.**

**5.14** **Dylai oedolion priodol fod ar gael yn barod i gefnogi pobl ifanc ac oedolion agored i niwed wyneb yn wyneb tra maen nhw yn y ddalfa.**

## Pwyntiau cadw tŷ

**5.15** Dylid rhoi'r ddogfen ganllawiau ysgrifenedig ddiweddaraf i deulu neu ffrindiau sy'n gweithredu fel oedolion priodol, i'w helpu i gyflawni'r rôl hon.

**5.16** Dylid darparu ffonau dwy set-law ym mhob un o'r dalfeydd i hwyluso cyfieithu dros y ffôn.

**5.17** Dylai'r heddlu sicrhau bod modd i gyfieithwyr fod ar gael yn brydlon.

**5.18** Dylid gwneud i ffwrdd â fersiynau o'r hysbysiad hawliau sydd wedi dyddio.

**5.19** Dylid hysbysu holl staff y dalfeydd fod gwybodaeth am hawliau carcharorion ar gael mewn fersiwn luniau hawdd i'w darllen.

## Hawliau o dan PACE

**5.20** Roedd carcharorion yn cael gwybod yn ystod eu derbyn y gallent ddarllen codau ymarfer y Ddeddf PACE, ond nid oedd y staff yn eu dangos na'u hegluro fel mater o drefn. Ychydig iawn o'r copïau diweddaraf o daflen Côd C Deddf PACE oedd ar gael yn y dalfeydd, ond roedd sawl copi o fersiynau oedd wedi dyddio. Nid oedd pob dalfa'n arddangos poster yn hysbysu'r carcharorion bod ganddynt hawl i gyngor cyfreithiol am ddim.[9]

**5.21** Roedd cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim yn cael ei chynnig i bob carcharor ond roedd rhai oedd am dderbyn cyngor dros y ffôn gan gynghorwyr cyfreithiol yn gorfod defnyddio ffôn wrth ddesg y ddalfa, oedd heb breifatrwydd. Roedd digon o ystafelloedd trafod a holi i'r carcharorion gael siarad yn breifat â'u cynrychiolwyr cyfreithiol. Gwelsom gofnodion y ddalfa'n cael eu cynnig yn gyson i gynghorwyr cyfreithiol gael golwg arnynt. Yn ein CRA, roedd pob un o'r carcharorion wedi cael cynnig cyngor cyfreithiol ac roedd 20 (67%) wedi derbyn. Ym mhob achos, cysylltwyd yn brydlon â chyfreithwyr. Gwelsom ringylliaid y ddalfa'n

---

[9] Mae'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol wedi creu poster o'r enw 'You need a solicitor'; mae'r poster hwn yn egluro i'r carcharorion fod ganddynt hawl i gyngor cyfreithiol am ddim a rhoddir y neges hon ar y poster mewn gwahanol ieithoedd. Rydym yn disgwyl gweld y poster hwn, neu fersiwn debyg, yn cael ei arddangos ym mhob dalfa.

gofyn i garcharorion pam oedden nhw wedi gwrthod cyngor cyfreithiol ac yn dweud y gallent newid eu meddwl ar unrhyw adeg. Dywedodd gynghorwyr cyfreithiol wrthym fod perthynas dda â staff y ddalfa a'u bod yn cynnal hawliau eu cleientiaid.

**5.22** Gwelsom garcharorion yn cael eu hysbysu y gallent roi gwybod i rywun eu bod wedi cael eu harestio, ac roedd staff yn hwyluso hyn, ond nid oedd bob amser yn cael ei gofnodi.

**5.23** Roedd y carcharorion yn cael eu hadolygu gan arolygwyr y ddalfa ac arolygwyr gweithredol ar draws ardal yr heddlu. Gwelsom adolygiadau wyneb yn wyneb da ac amserol gan arolygwyr.

**5.24** Yn ein CRA, o'r 17 o gofnodion lle oedd angen adolygiad cychwynnol, roedd naw wedi'u cynnal ar amser, saith yn fuan ac un yn hwyr. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r adolygiadau wyneb yn wyneb, ond cynhaliwyd pedwar adolygiad tra oedd y carcharor yn cysgu. Nid oedd cofnod o hysbysu'r carcharorion fod yr adolygiad wedi digwydd nac ychwaith y cawsant eu hatgoffa am eu hawliau.

**5.25** Roedd system effeithiol ar gyfer casglu samplau DNA yn y ddalfa.

**5.26** Nid oedd y llysoedd ynadon lleol fel arfer yn derbyn carcharorion ar ôl 2pm yn ystod yr wythnos neu ar ôl 9am ar ddydd Sadwrn, oedd yn rhy fuan. Roedd carcharorion nad oeddent yn cael eu cyhuddo tan nes ymlaen yn y bore'n aros yn y ddalfa dros nos. Gwelsom sawl enghraifft annerbyniol o'r llysoedd yn gwrthod derbyn carcharorion. Yn Wrecsam, roedd y llys wedi gwrthod carcharor amser cinio a bu'n rhaid iddo aros noson arall yn y ddalfa. Dywedodd ringylliaid y ddalfa nad oedd hyn yn anghyffredin. Yn Llanelwy roedd merch wedi'i harestio ar warant ar fore dydd Sadwrn. Roedd y swyddogion arestio wedi mynd â hi'n syth i'r llys, gan geisio ond methu â rhoi gwybod i'r llys dros y ffôn. Ar ôl cyrraedd y llys, roedd staff wedi gwrthod derbyn y carcharor oherwydd na chawsant alwad ffôn yn gyntaf. Bu'n rhaid i'r carcharor aros yn y ddalfa tan y bore dydd Llun canlynol.

**5.27** Roedd cofnodion hebrwng person (PER) yn cael eu cwblhau ar gyfer pob carcharor oedd yn teithio i'r llys ac roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion hyn a welsom wedi'u cwblhau i safon uchel. Roedd contractwr hebrwng person ar gael ar gyfer llysoedd bore a phrynhawn, ond roedd staff yn dewis mynd â'r carcharorion yn eu ceir i lysoedd y prynhawn i sicrhau nad oedden nhw'n aros yn y ddalfa am fwy nag sydd angen. Gallai swyddogion oedd yn arestio ar warant fynd â'r carcharor yn syth i'r llys, ar yr amod bod PER wedi'i gwblhau a bod y llys yn fodlon derbyn y carcharor. Roedd hyn yn drefniant da.

## Argymhellion

**5.28** **Dylai carcharorion fod yn gallu cael sgwrs ffôn breifat â'u cynghorydd cyfreithiol.**

**5.29** **Dylai uwch reolwyr yr heddlu weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sicrhau na chedwir carcharorion yn y ddalfa am fwy o amser nag sydd angen.**

## Pwyntiau cadw tŷ

**5.30** Dylai fod digon o gopïau o'r codau ymarfer PACE diweddaraf ym mhob un o'r dalfeydd a dylai staff y ddalfa eu dangos a'u hegluro i'r carcharorion fel mater o drefn.

**5.31** Dylid arddangos posteri'n nodi hawl carcharorion i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim, mewn gwahanol ieithoedd, mewn lle amlwg ym mhob dalfa.

**5.32** Dylid hysbysu carcharorion sy'n cysgu pan gynhelir eu hadolygiad, a lle awdurdodir parhau i'w cadw yn y ddalfa, am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt ddeffro, yn unol ag adran 15, Cod C Deddf PACE 1984.

## Hawliau'n ymwneud â thriniaeth

**5.33** Os oedd carcharor am wneud cwyn, roeddent yn rhoi gwybod i arolygydd y ddalfa neu i'r arolygydd gweithredol a fyddai yna'n nodi cwyn y carcharor tra oedd yn dal i fod yn y ddalfa. Dywedodd yr arolygwyr y byddent yn delio â'r cwynion hyn gan ddibynnu ar eu natur ac a oeddent ar gael ar y pryd i wneud hynny. Os nad oedd yr arolygydd mewn sefyllfa i nodi cwyn y carcharor, roedd yn rhoi gwybodaeth am gyfeiriad gwefan yr Heddlu, rhifau ffôn ar gyfer cysylltu, a chyfeiriadau post, fel y gallai'r carcharor wneud cwyn unwaith y byddai'n cael ei ryddhau.

# Adran 6. Gofal iechyd

**Canlyniadau disgwyliedig:**
**Mae gan garcharorion fynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n diwallu eu hanghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau mewn ffordd amserol.**

## Llywodraethu

**6.1** Roedd Heddlu Gogledd Cymru'n darparu gwasanaeth meddygol mewnol. Roedd ymarferwyr gofal iechyd (HCP) - tair nyrs gofrestredig ac archwiliwr meddygol fforensig (FME) - ar gael i'r heddlu 24 awr y dydd er, oherwydd problemau staffio dros dro, dim ond dwy nyrs oedd ar gael ambell waith. Nid oedd gweithwyr HCP nyrsio ar gael rhwng 5pm a 7pm, dim ond gweithwyr FME. Er hyn, nid oedd unrhyw dystiolaeth yr effeithiwyd ar ganlyniadau iechyd y carcharorion.

**6.2** Roedd yr heddlu'n craffu ar gymwysterau proffesiynol y gweithwyr HCP, gan ddarparu cynefino, hyfforddiant gorfodol a pheth cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant clinigol. Roedd cwtogi wedi bod ar oruchwyliaeth glinigol oherwydd prinder gweithwyr HCP; y bwriad oedd ailgyflwyno goruchwyliaeth glinigol wrth i'r lefelau staff nyrsio ddychwelyd i normal. Roedd yr uwch nyrs, sef y rheolwr nyrsio, yn rhan o dîm rheoli'r ddalfa (gweler yr adran ar strategaeth).

**6.3** Roedd trefniadau da o ran rheolaeth strategol a gweithredol o'r gweithwyr HCP gyda pheth data perfformiad ar gael ar ddangosfwrdd y ddalfa (gwybodaeth ar ffurf electronig). Yn 2014 ar gyfartaledd, roedd nyrsys wedi mynychu 835 o achosion y mis hyd at ddiwedd Awst, a chynhaliwyd 332 o asesiadau o garcharorion y mis.  Roedd tua 150 o alwadau'r mis wedi bod i FME, gyda saith achos o fynychu. Gwelsom berthynas weithio gadarnhaol iawn rhwng staff y ddalfa a'r gweithwyr HCP.

**6.4** Roedd gan bob safle ystafell feddygol ac roedd y rhai yn Llanelwy a Chaernarfon yn fodern iawn. Roedd yr amserlen lanhau i fyny ar y wal a'r ystafelloedd yn lân iawn. Nid oedd gan yr un ystafell wyneb gwaith clinigol addas ar gyfer samplo fforensig. Nid oedd rhai ffitiadau a gosodion yn llwyr gydymffurfio â'r safonau rheoli haint gofynnol, er enghraifft roedd ffitiadau tapiau o'r math anghywir. Yn aml nid oedd ystafelloedd meddygol yn cael eu cloi os nad oedden nhw mewn defnydd ac weithiau'n cael eu defnyddio i bwrpas arall, oedd yn cyflwyno'r potensial i'w halogi.

**6.5** Roedd gan bob un o'r dalfeydd fag brys o gyfarpar meddygol hanfodol, cyfarpar diffibrilio allanol awtomatig (AED) ac ocsigen, fel arfer wrth ddesg y ddalfa; roedd y cyfarpar yn cael ei gyflenwi, ei gynnal a'i archwilio'n gyson gan y gwasanaeth ambiwlans. Roedd holl staff y ddalfa'n derbyn hyfforddiant dadebru, gan gynnwys sut i ddefnyddio'r cyfarpar AED. Roedd cyffuriau at ddefnydd brys ar gael.

**6.6** Roedd y drefn o reoli cofnodion clinigol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol; roedd y nyrs arwain yn samplo cofnodion i sicrhau cysondeb ansawdd.

**6.7** Roedd y trefniadau ar gyfer storio meddyginiaeth mewn ystafelloedd clinigol, rheoli stoc a gwaredu hen feddyginiaeth, yn dda iawn gyda thrywydd archwilio clir bob tro. Roedd y gweithwyr HCP yn cyflawni archwiliadau dyddiol ac wythnosol. Gwelsom wall cyfrif gyda chyffur rheoledig yn Llanelwy, a chamau'n cael eu cymryd i'w gywiro. Nid oedd meddyginiaethau rhagnodedig yn cael eu storio'n ddiogel wrth y desgiau derbyn yn Llanelwy a Chaernarfon: cymerwyd mesurau ar unwaith i'w storio'n ddiogel.

**6.8** Roedd cyfarwyddiadau grwp cleifion PGD)[10] ym mhob ystafell feddygol ac roedd nyrsys yn gweinyddu meddyginiaethau a gyflenwyd o dan PGD. Defnyddiwyd poteli tabledi dos sengl fel y gallai'r heddlu helpu carcharorion i hunan-weinyddu tabledi.

## Argymhellion

**6.9 Dylai ystafelloedd ac arferion meddygol gydymffurfio â'r safonau rheoli haint perthnasol a safonau cyfoes ar atal halogi a samplo fforensig.**

**6.10 Dylid cloi drysau'r ystafelloedd meddygol os nad ydynt yn cael eu defnyddio, er mwyn atal halogi.**

## Arfer da

**6.11** *Roedd defnyddio poteli meddyginiaeth un dos, wedi'u paratoi gan y fferyllydd, yn hwyluso gweinyddu meddyginiaeth yn fwy diogel.*

## Gofal cleifion

**6.12** Yn ein CRA, roedd 40% o'r carcharorion wedi cael eu gweld gan HCP. Nid oedd cofnodion y ddalfa bob amser yn nodi pryd y cysylltwyd â'r HCP i fynychu ac nid oedd yn bosibl cyfrifo amser aros cyfartalog. O'r data oedd ar gael, ymddengys mai tua 2 awr 25 munud oedd yr amser aros hiraf, a 45 munud oedd yr amser aros byrraf. Roedd amseroedd ymateb yn cael eu monitro'n anffurfiol gan ringylliaid y ddalfa ac, fel arfer, roedden nhw'n fodlon â'r gwasanaeth meddent.

**6.13** Roedd carcharorion yn cael eu trin gyda pharch ac yn sensitif. Dim ond tair cwyn a wnaed mewn dwy flynedd, ynghylch meddyginiaethau. Dywedodd y carcharorion eu bod yn fodlon ar ôl eu sesiynau ymgynghori ac roedd staff y ddalfa'n hapus â'r cysylltiadau HCP.

**6.14** Roedd dull systematig o gyflawni asesiadau meddygol, gyda chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gael ar y safle ac ar y cyfrifiadur. Roedd y cofnodion clinigol mewn llawysgrifen ac ar y cyfan o safon dda. Roedd y gweithwyr HCP yn cofnodi'n uniongyrchol ar system gyfrifiadurol y ddalfa ac yna'n cadarnhau gyda staff y ddalfa os oedd angen eglurhad i sicrhau gofal parhaus.

**6.15** Roeddem yn bryderus o glywed gan staff a gweithwyr HCP fod adrannau damweiniau ac achosion brys weithiau'n rhyddhau carcharorion yn ôl i'r ddalfa gyda phroblemau heb eu datrys, ar sail tybiaethau ynghylch lefel y gofal oedd ar gael yn y ddalfa. Nodwyd achos diweddar lle cafodd garcharor ei ddychwelyd i'r ddalfa gan ddisgwyl iddo dderbyn arsylwi parhaus - gan gynnwys archwiliadau niwrolegol meddygol - oedd yn afresymol ac nid yn bosibl. Gwaethygodd gyflwr y carcharor fel bod angen ei ddychwelyd i'r adran damweiniau ac achosion brys. Roeddem yn falch o weld fod y FEM arweiniol wedi codi'r achos gyda chyfarwyddwr meddygol yr ysbyty.

**6.16** Yn ein CRA, roedd 47% o'r carcharorion a gyrhaeddodd y ddalfa ar feddyginiaeth; unwaith y cadarnhawyd eu meddyginiaeth, roedd yn cael ei pharhau ac roedd yr heddlu'n gwneud ymdrechion rhesymol i gasglu meddyginiaethau rhagnodedig o gartrefi'r carcharorion. Nid

---

[10] Fel bod pobl heblaw meddyg neu fferyllydd yn gallu cyflenwi a gweinyddu meddyginiaethau rhagnodedig, nyrs fel arfer

oedd therapi disodli opiadau ar gael yn y ddalfa, oedd yn esgeulustod a gâi ond ei ateb yn rhannol drwy ryddhau symptomau. Roedd therapi disodli nicotin ar gael ac yn cael ei werthfawrogi gan y carcharorion. Roedd y gweithwyr HCP yn sicrhau bod rhai oedd angen rhyddhau symptomau ymatal rhag yfed alcohol yn gallu derbyn meddyginiaeth tra oeddent yn y llys, oedd yn anghyffredin.

## Argymhelliad

**6.17 Dylai therapi disodli opiadau fod ar gael i garcharorion yn y ddalfa, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.**

## Camddefnyddio sylweddau

**6.18** Yn ein CRA, roedd 13% o'r carcharorion yn dod i'r ddalfa gyda phroblem alcohol neu gyffuriau. Roedd gweithwyr atgyfeirio arestio (ARW) yn bresennol yn y dalfeydd rhwng 7am a 5pm, gydag oriau estynedig yn Wrecsam lle oedd carcharorion yn cael eu profi am droseddau sbarduno ar adeg eu harestio. Roedd staff y ddalfa'n atgyfeirio carcharorion gyda gofynion triniaeth orfodol yn Wrecsam ac roedd triniaeth fel amod rhybuddiad ar gael ym mhob un o'r dalfeydd. Gofynnwyd i bob carcharor a oedden nhw eisiau gweld ARW ond ni chynigiwyd fawr ddim esboniad ynghylch eu rôl (gweler yr adran ar driniaeth ac amodau). Roedd y gweithwyr ARW yn cynnig cymorth prydlon i oedolion gyda phroblemau cyffuriau ac alcohol a mynediad at driniaeth camddefnyddio sylweddau a gwasanaeth lleihau niwed; roedden nhw'n ôl-ddilyn atgyfeiriadau tu allan i oriau.

**6.19** Roedd carcharorion gyda phroblem alcohol yn cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau priodol. Roedd carcharorion o dan 18 oed yn cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau arbenigol i bobl ifanc. Roedd gan y carcharorion a staff y ddalfa gryn feddwl o'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau.

## Iechyd meddwl

**6.20** Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y Gogledd, gyda gwasanaeth arallgyfeirio a chyswllt drwy'r llysoedd. Yn ein CRA, dywedodd 17% o'r carcharorion eu bod wedi cyrraedd y ddalfa gyda phroblemau iechyd meddwl a 27% gyda phroblemau hunan-niwed neu hunanladdiad ar y pryd neu'n flaenorol. Roedd staff y ddalfa wedi derbyn hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iechyd meddwl fel rhan o gynefino, gyda mynediad at hyfforddiant NCALT (pecyn e-ddysgu'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Technolegau Dysgu Cymhwysol) wedyn; roedd barn gymysg ynghylch pa mor effeithiol oedd NCALT. Roedd y trefniadau partneriaeth strategol a gweithredol rhwng yr heddlu a'r Bwrdd yn dda iawn ac roedd trafodaethau ynghylch prosiect brysbennu stryd yn Wrecsam wedi dechrau.

**6.21** Nid oedd unrhyw ymarferydd iechyd meddwl (MHP) yn gweithio yn y ddalfa. Roedd pob carcharor lle oedd amheuon bod ganddynt broblem iechyd meddwl yn cael eu gweld gan HCP. Roedd y darparwr iechyd meddwl yn derbyn atgyfeiriadau gan weithwyr HCP nyrsio, oedd yn anghyffredin ac i'w ganmol. Yn 2014 hyd yma, dim ond 2.2% o asesiadau gan weithwyr HCP oedd wedi arwain at atgyfeiriadau at weithwyr MHP. Nid oedd dadansoddiad o anghenion. Roedd timau iechyd meddwl argyfwng a chymunedol ar gael yn y Gogledd ond nid oedd gan yr heddlu unrhyw gyswllt uniongyrchol â nhw ac nid oeddent yn eu ffonio am gyngor.

**6.22** Roedd carcharorion oedd angen asesiad ffurfiol arnynt o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu gweld gan dimau dyletswydd brys; dywedodd staff y ddalfa fod yr ymateb yn brydlon.

**6.23** Yn ystod y 12 mis hyd at fis Medi 2014, roedd 505 o bobl wedi cael eu cadw o dan Adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl, er mai ond 17 a gafodd eu cadw yn y ddalfa, oedd i'w ganmol. Roedd 11% o'r 505 wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, 20% o'r rhain wedi cael eu derbyn yn wirfoddol i'r ysbyty a 3% wedi derbyn cymorth gan y gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol, oedd yn cynnig llwybr gofal yn hytrach na chadw i'r bobl hyn. Roedd defnydd plismyn o Adran 136 i gadw pobl mewn lle diogel ar wahân i orsaf yr heddlu wedi cynyddu o dros 50% yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y rhesymau dros y cynnydd hwn yn anhysbys ac roedd angen sicrwydd bod plismyn yn defnyddio'r pwer hwn yn briodol.

## Argymhellion

**6.24** **Dylid dadansoddi a oes angen i ymarferwyr iechyd meddwl fod ar gael i garcharorion sydd yn y ddalfa yng Ngogledd Cymru.**

**6.25** **Dylai fod gan yr heddlu a gweithwyr HCP fynediad at gyngor dros y ffôn gan y gwasanaethau iechyd meddwl.**

## Pwynt cadw tŷ

**6.26** Dylai Heddlu Gogledd Cymru ymchwilio i'r rheswm am y cynnydd yn y defnydd o adran 136, er mwyn bodloni eu hunain bod eu pwerau'n cael eu hymarfer yn gymesur.

# Adran 7. Crynodeb o'r argymhellion a'r pwyntiau cadw tŷ

## Prif argymhellion

**7.1** Dylai Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a grwp prif swyddogion yr heddlu ymgysylltu â'u cydweithwyr yn yr awdurdod lleol a chychwyn adolygiad ar unwaith o'r ddarpariaeth llety awdurdod lleol i blant o dan adran 38(6) Deddf PACE 1984. Dylid monitro data perfformiad i sicrhau nad yw pobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiangen yng nghelloedd yr heddlu. (2.39)

**7.2** Dylai Heddlu Gogledd Cymru gasglu ynghyd ei ddata ar ddefnyddio grym yn y ddalfa a'i archwilio am unrhyw dueddiadau'n unol â pholisi Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a chanllawiau'r Coleg Plismona. (2.40)

**7.3** Dylai heddlu Gogledd Cymru ymchwilio i'r rhesymau pam fod llawer mwy o chwilio heb ddillad yn Llanelwy na mewn dalfeydd eraill. (2.41)

**7.4** Dylai Heddlu Gogledd Cymru ymgysylltu â'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys lleol i sicrhau na ddefnyddir y ddalfa fel rhywle wrth gefn i gadw carcharorion / cleifion. (2.42)

## Argymhellion

### Triniaeth ac amodau

**7.5** Dylai'r ardaloedd derbyn ganiatáu ar gyfer cyfathrebu effeithiol a phreifat rhwng staff a charcharorion. (4.8)

**7.6** Dylid ond tynnu sbectols, esgidiau a chareiau'r carcharorion os yw'r asesiad risg yn nodi bod angen gwneud hynny. (4.17)

**7.7** Dylid egluro'n gliriach i'r staff sut i ddilyn y gweithdrefnau dillad gwrthrwygo i sicrhau y defnyddir hwynt ond pan fydd ffactorau risg yn nodi bod angen. (4.18)

**7.8** Dylid cynnwys ymarferwyr gofal iechyd yn y broses drosglwyddo a dylai rhingylliaid sy'n cymryd yr awenau yn y ddalfa ymweld â'r carcharorion. (4.19)

**7.9** Dylid gofyn i bob carcharor fel mater o drefn a ydynt yn gyfrifol am ddibynyddion a allai gael eu heffeithio gan eu harhosiad yn y ddalfa. (4.20)

**7.10** Dylid derbyn carcharorion i'r ddalfa mewn ffordd amserol. Dylid tynnu gefynnau oddi ar y carcharorion ar ôl iddynt gyrraedd, oni bai fod asesiad risg yn nodi na ddylid eu tynnu. (4.26)

**7.11** Ni ddylid arsylwi ar garcharorion drwy CCTV pan fydd eu dillad yn cael eu tynnu. (4.27)

**7.12** Dylid cynnig cawod i bob carcharor a gedwir dros nos, ac i rai sydd angen un, a dylent fod yn gallu cymryd eu cawod yn breifat. (4.41)

**7.13** Dylid cynnig amser mewn iard ymarfer corff y tu allan i garcharorion. (4.42)

### Hawliau unigol

**7.14** Dylai rhingylliaid y ddalfa ofyn i'r swyddogion arestio pryd y maen nhw'n cyrraedd gyda'r carcharorion a sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi'n gywir. (5.13)

**7.15** Dylai oedolion priodol fod ar gael yn barod i gefnogi pobl ifanc ac oedolion agored i niwed wyneb yn wyneb tra byddant yn y ddalfa. (5.14)

**7.16** Dylai carcharorion fod yn gallu cael sgwrs ffôn breifat â'u cynghorydd cyfreithiol. (5.28)

**7.17** Dylai uwch reolwyr yr heddlu weithio gyda Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sicrhau nad yw carcharorion yn cael eu cadw yn y ddalfa am fwy o amser nag sydd angen. (5.29)

### Gofal iechyd

**7.18** Dylai ystafelloedd ac arferion meddygol gydymffurfio â'r safonau rheoli haint perthnasol a safonau cyfoes ar atal halogi a samplo fforensig. (6.9)

**7.19** Dylid cloi drysau'r ystafelloedd meddygol os nad ydynt yn cael eu defnyddio, er mwyn atal halogi. (6.10)

**7.20** Dylai therapi disodli opiadau fod ar gael i garcharorion yn y ddalfa, yn unol â chanllawiau cenedlaethol. (6.17)

**7.21** Dylid dadansoddi a oes angen i ymarferwyr iechyd meddwl fod ar gael i garcharorion sydd yn y ddalfa yng Ngogledd Cymru. (6.24)

**7.22** Dylai fod gan yr heddlu a gweithwyr HCP fynediad at gyngor dros y ffôn gan y gwasanaethau iechyd meddwl. (6.25)

## Pwyntiau cadw tŷ

### Triniaeth ac amodau

**7.23** Dylid arddangos y rhestr atgoffa ar 'ddihuno' carcharorion ym mhob dalfa. (4.21)

**7.24** Dylid egluro wrth bob carcharor sut i ddefnyddio'r gloch yn y gell. (4.32)

**7.25** Dylid rhoi gwybod i bob carcharor na ellir eu gweld ar y CCTV pan fyddant yn defnyddio'r toiled. (4.33)

**7.26** Dylid darparu gobenyddion ym mhob dalfa. (4.43)

**7.27** Dylid storio dillad y carcharorion yn briodol. (4.44)

**7.28** Dylid cadw stoc o rasals untro fel y gall carcharorion, ar ôl gwneud asesiad risg, sydd am eillio cyn gadael neu fynychu'r llys wneud hynny. (4.45)

**7.29** Dylai cyflenwad bychan o bapur toiled fod ar gael ym mhob cell, yn seiliedig ar asesiad risg. (4.46)

**7.30** Dylai ystod o ddeunyddiau darllen fod ar gael a chael eu cynnig yn rheolaidd, gan gynnwys llyfrau a chylchgronau addas i bobl ifanc, ac i garcharorion gyda mamiaith heblaw'r Saesneg. (4.47)

**7.31** Dylid hwyluso ymweliadau cymdeithasol lle bo'n briodol. (4.48)

## Hawliau unigol

**7.32** Dylid rhoi'r ddogfen ganllawiau ysgrifenedig ddiweddaraf i deulu neu ffrindiau sy'n gweithredu fel oedolion priodol, i'w helpu i gyflawni'r rôl hon. (5.15)

**7.33** Dylid darparu ffonau dwy set-law ym mhob un o'r dalfeydd i hwyluso cyfieithu dros y ffôn. (5.16)

**7.34** Dylai'r heddlu sicrhau bod modd i gyfieithwyr fod ar gael yn brydlon. (5.17)

**7.35** Dylid gwneud i ffwrdd â fersiynau o'r hysbysiad hawliau sydd wedi dyddio. (5.18)

**7.36** Dylid hysbysu holl staff y dalfeydd fod gwybodaeth am hawliau carcharorion ar gael mewn fersiwn luniau hawdd i'w darllen. (5.19)

**7.37** Dylai fod digon o gopïau o'r codau ymarfer PACE diweddaraf ym mhob un o'r dalfeydd a dylai staff y ddalfa eu dangos a'u hegluro i'r carcharorion fel mater o drefn. (5.30)

**7.38** Dylid arddangos posteri'n nodi hawl carcharorion i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim, mewn gwahanol ieithoedd, mewn lle amlwg ym mhob dalfa. (5.31)

**7.39** Dylid hysbysu carcharorion sy'n cysgu pan gynhelir eu hadolygiad, a lle awdurdodir parhau i'w cadw yn y ddalfa, am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddynt ddeffro, yn unol ag adran 15, Cod C Deddf PACE 1984. (5.32)

## Gofal iechyd

**7.40** Dylai Heddlu Gogledd Cymru ymchwilio i'r rheswm am y cynnydd yn y defnydd o adran 136, er mwyn bodloni eu hunain bod eu pwerau'n cael eu hymarfer yn gymesur. (6.26)

# Arferion da

**7.41** Roedd cynnwys y rheolwr nyrsio yn y tîm rheoli cadw yn y ddalfa'n adlewyrchu pwysigrwydd y ddarpariaeth gofal iechyd yn amgylchedd dalfeydd yr heddlu. (3.17)

**7.42** Roedd defnyddio poteli meddyginiaeth un dôs, wedi'u paratoi gan y fferyllydd, yn hwyluso gweinyddu meddyginiaeth yn fwy diogel. (6.11)

# Adran 8. Atodiadau

## Atodiad I: Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Maneer Afsar | Arweinydd tîm HMIP |
| Gary Boughen | Arolygydd HMIP |
| Peter Dunn | Arolygydd HMIP |
| Vinnett Pearcy | Arolygydd HMIP |
| Fiona Shearlaw | Arolygydd HMIP |
| Heather Hurford | Arolygydd HMIC |
| Paul Davies | Arolygydd HMIC |
| Vijay Singh | Arolygydd HMIC |
| Paul Tarbuck | Arolygydd arweiniol gwasanaethau iechyd HMIP |
| Stephen Eley | Arolygydd gwasanaethau iechyd HMIP |
| Joe Simmonds | Ymchwilydd HMIP |

# Atodiad II: Cynnydd gyda'r argymhellion o'r adroddiad diwethaf

Mae'r canlynol yn grynodeb o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaed. Mae'r cyfeirifau ar ddiwedd pob argymhelliad yn cyfeirio at leoliad y paragraff yn yr adroddiad blaenorol. Os yw'r argymhelliad wedi'i ailadrodd yn y prif adroddiad, rhoddir ei rif paragraff newydd hefyd.

## Strategaeth

**Mae ffocws strategol ar gadw yn y ddalfa sy'n gyrru proses o ddatblygu a defnyddio polisïau a gweithdrefnau dalfa penodol er mwyn diogelu lles carcharorion.**

### Argymhellion

Dylai'r heddlu adolygu'r trefniadau rheoli presennol ar gyfer cadw yn y ddalfa, a'u lefelau staffio, i sicrhau gofal a lles y carcharorion. (3.12)
**Wedi'i gyflawni**

Dylai'r heddlu gasglu data ar ddefnyddio grym a monitro'r defnydd o rym yn lleol ac ar draws yr heddlu, er enghraifft yn ôl tarddiad ethnig, lleoliad a'r swyddog perthnasol. (3.13)
**Heb ei gyflawni**

## Triniaeth ac amodau

**Cedwir y carcharorion mewn amgylchedd glân a gweddus lle diogelir eu diogelwch a lle caiff eu hanghenion amrywiol a lluosog eu cwrdd.**

### Prif argymhellion

Dylid egluro'n gliriach ac adolygu'r defnydd o ddillad atal hunan-niwed i sicrhau y defnyddir hwynt ond pan fydd ffactorau risg yn nodi bod angen. (2.23)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol** (ailadrodd argymhelliad)

Lle bo'n briodol, dylid dihuno carcharorion i gael ymateb ganddynt. (2.24)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid cyflwyno archwiliadau i sicrhau nad yw clychau larwm yn cael eu diffodd heblaw mewn amgylchiadau eithriadol a bod gan garcharorion mewn celloedd heb gyfleusterau toiled fynediad at gyfleusterau toiled pan fo angen. (2.25)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid gwella'r amgylchedd yn y ddalfa yn Wrecsam a'i lanhau'n drylwyr. (2.26)
**Wedi'i gyflawni**

### Argymhellion

Dylai'r desgiau derbyn ganiatáu ar gyfer cyfathrebu effeithiol a phreifat rhwng staff a charcharorion. (4.7)
**Heb ei gyflawni** (ailadrodd argymhelliad, 4)

Dylid cael polisïau a gweithdrefnau clir i ddiwallu anghenion penodol gan ferched, carcharorion ifanc a rhai gydag anableddau. (4.8)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol**

Dylid cynnwys cyfnod gorgyffwrdd ym mhob shifft, i hwyluso trosglwyddo effeithiol rhwng staff. (4.14)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid cuddio neu gau allan y toiled ar sgriniau teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn celloedd gyda chyfleusterau toiled. (4.26)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid cynnig cawod i bob carcharor sy'n cael ei gadw dros nos, neu sydd angen un. (4.27)
**Heb ei gyflawni**

Dylai bwyd fod o ansawdd a gwerth caloriffig digonol i gynnal y carcharorion tra byddant yn y ddalfa. (4.34)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid cynnig ymarfer corff yn yr awyr agored i garcharorion a gedwir am gyfnodau hir. (4.38)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol**

# Hawliau unigol

**Rhoddir gwybod i garcharorion am eu hawliau unigol ar ôl cyrraedd a medrant ymarfer yr hawliau hynny'n rhydd yn y ddalfa.**

## Argymhellion

Ni ddylid defnyddio'r ddalfa fel rhywle i gadw pobl ifanc yn ddiogel. (5.9)
**Wedi'i gyflawni**

Dylai staff y ddalfa sicrhau y nodir cyfrifoldebau carcharorion tuag at ddibynyddion fel mater o drefn a, lle bo'n bosibl, eu bod yn cael sylw. (5.10)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol** (ailadrodd argymhelliad)

Dylai oedolion priodol fod ar gael yn barod i gefnogi pobl ifanc 17 oed neu'n iau, ac oedolion agored i niwed, sydd yn y ddalfa, gan gynnwys y tu allan i oriau. (5.16)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol**

Dylid rhoi gwybod i garcharorion sut i wneud cwyn a dylid eu hwyluso i wneud hynny cyn gadael y ddalfa. (5.19)
**Wedi'i gyflawni**

# Gofal iechyd

**Mae gan garcharorion fynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n diwallu eu hanghenion iechyd corfforol, iechyd meddwl a defnyddio sylweddau mewn ffordd amserol.**

## Prif argymhelliad

Dylai bob carcharor fod yn gallu gweld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a phriodol i'w hanghenion, gan gynnwys i weinyddu cyffuriau rheoledig, o fewn amser rhesymol. (2.27)
**Wedi'i gyflawni**

## Argymhellion

Dylai fod gweithdrefnau rheoli haint trylwyr ar gyfer pob ystafell glinigol, a dylai'r ystafelloedd hynny fod yn lân. (6.9)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol**

Dylid ond rhagnodi a gweinyddu meddyginiaeth yn unol â chanllawiau proffesiynol perthnasol. (6.10)
**Wedi'i gyflawni**

Dylid atgyfeirio'n briodol pob carcharor sydd angen gwasanaeth gweithiwr cyffuriau neu alcohol arnynt, faint bynnag o'r gloch ydyw. (6.28)
**Wedi'i gyflawni**

Pan fydd carcharorion gyda phroblemau iechyd meddwl yn y ddalfa dylid trafod eu gofal yn strategol rhwng prif swyddogion a'r bwrdd iechyd i ddatblygu a gweithredu protocol cadarn i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n brydlon i ddarparu'r gofal meddygol sydd ei angen ar bob carcharor gyda phroblemau iechyd meddwl. (6.36)
**Wedi'i gyflawni'n rhannol**

Dylid ond defnyddio'r ddalfa fel rhywle i gadw pobl yn ddiogel, ar gyfer asesiadau adran 136, mewn achosion eithriadol. (6.37)
**Wedi'i gyflawni**

Dylai staff y ddalfa dderbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl. (6.38)
**Wedi'i gyflawni**